



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 1110 (Cy. 267)

2016 No. 1110 (W. 267)

TAI, CYMRU

HOUSING, WALES

**Rheoliadau Gweithdrefnau a
Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl
(Cymru) 2016**

**The Residential Property Tribunal
Procedures and Fees (Wales)
Regulations 2016**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn cydgrynhoi darpariaethau Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012, Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2014, Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2015.

These Regulations revoke and consolidate the provisions of the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) Regulations 2012, the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) (Amendment) Regulations 2014, the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) (Amendment No. 2) Regulations 2014 and the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) (Amendment) Regulations 2015.

Maent hefyd yn dirymu ac yn diwygio'r ddeddfwriaeth a restrir yn rheoliad 52.

They also revoke and amend the legislation listed at regulation 52.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth yng ngoleuni adrannau 30 i 34 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") o ran ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2014 mewn cysylltiad â gorchmynion atal rhent a gorchmynion ad-dalu rhent. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi pŵer i dribiwnlys eiddo preswyl ("tribiwnlys") gau ceisiadau anweithredol.

The Regulations also make provision in light of sections 30 to 34 of the Housing (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act") with regards to applications made under the 2014 Act in respect of rent stopping orders and rent repayment orders. The Regulations also provide a power for a residential property tribunal ("tribunal") to close inactive applications.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn pennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn o ran ceisiadau ac apelau (y cyfeirir atynt ar y cyd fel ceisiadau) a wneir i dribiwnlys o dan Ddeddf 2014, Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"), Deddf Tai 2004 ("Deddf 2004") a Rhan 9 o Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985") sy'n ymwneud â gorchmynion dymchwel.

Part 2 of the Regulations specifies the procedure to be followed for applications and appeals (jointly referred to as applications) made to a tribunal under the 2014 Act, the Mobile Homes (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act"), the Housing Act 2004 ("the 2004 Act") and Part 9 of the Housing Act 1985 ("the 1985 Act"), which relates to demolition orders.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd mewn cysylltiad ag apelau a cheisiadau penodol i dribiwnlysoedd.

Part 3 of the Regulations makes provision for the payment of fees in respect of certain appeals and applications to tribunals.

Mae rheoliad 1 yn pennu'r achosion y mae'r Rheoliadau yn gymwys iddynt.

Regulation 1 specifies the proceedings to which the Regulations apply.

Mae rheoliad 2 yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Regulation 2 defines the terms used in the Regulations.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r prif amcan o ymdrin yn deg ac yn gyfiawn â cheisiadau, a'r gofyniad i gydweithredu â'r tribiwnlys.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â cheisiadau am estyn yr amser ar gyfer gwneud cais, yn yr achosion hynny pan fo Deddf 2014, Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014, Deddf 2013 neu Ddeddf 2004 yn rhoi'r pŵer i dribiwnlys ganiatáu estyniad o'r fath.

Mae rheoliad 5 yn darparu, pan fo cais gan berson o dan Ddeddf 2013 yn ymwneud â mwy nag un llain neu gartref symudol, y caiff y cais gyfeirio at un ddarpariaeth yn unig yn Neddf 2013 ac mai'r nifer mwyaf o leiniau neu gartrefi symudol y caiff unrhyw gais unigol ymwneud â hwy fydd 20.

Mae rheoliad 6 yn rhoi manylion am yr wybodaeth sydd i'w chynnwys gyda chais, ac yn darparu ar gyfer dogfennau ychwanegol ar gyfer ceisiadau penodol, fel y'u nodir yn is-baragraff (2) o bob paragraff o'r Atodlen i'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer y gweithdrefnau sy'n gymwys pan drosglwyddir mater sy'n codi o dan Ddeddf 2013 o lys i dribiwnlys.

Mae rheoliad 8 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chydabod cais sy'n cyrraedd tribiwnlys, ac anfon copiâu o'r dogfennau at yr ymatebydd, ynghyd â hysbysiad sy'n pennu'r dyddiad erbyn pryd y dylai'r ymatebydd ateb y tribiwnlys.

Mae rheoliad 9 yn ymdrin ag ateb yr ymatebydd.

Mae rheoliad 10 yn caniatáu i dribiwnlys gynnal gwrandawriad llafar ar fyr rybudd pan fo Awdurdod Tai Lleol wedi gwneud cais am awdurdodi gorchymyn rheoli interim o dan adran 102(4) neu (7) o Ddeddf 2004, a phan fo'n ymddangos i'r tribiwnlys, ar sail yr wybodaeth a gyflwynir gyda'r cais, fod amgylchiadau eithriadol penodedig yn bodoli.

Mae rheoliad 11 yn pennu'r gweithdrefnau ychwanegol sy'n gymwys mewn cysylltiad â chais a wneir o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013, am i dribiwnlys benderfynu pa un a yw cartref symudol, o ystyried ei gyflwr, yn cael effaith andwyol ai peidio ar amwynder y safle gwarchoddedig.

Mae rheoliad 12 yn ymdrin â cheisiadau am gael ymuno fel parti i'r achos.

Mae rheoliad 13 yn pennu amgylchiadau pan ganiateir benderfynu ar y cyd ddau neu ragor o geisiadau gwahanol, neu benderfynu ar y cyd faterion penodol sy'n codi mewn ceisiadau gwahanol.

Regulation 3 sets out the overriding objective of dealing fairly and justly with applications and the requirement to co-operate with the tribunal.

Regulation 4 makes provision in connection with requests for extension of time to make an application, in those cases where the 2014 Act, the Mobile Homes (Site Rules) (Wales) Regulations 2014, the 2013 Act or the 2004 Act gives a tribunal power to permit such an extension.

Regulation 5 provides that where a person's application under the 2013 Act relates to more than one pitch or mobile home the application may refer to only one provision of the 2013 Act and the maximum number of pitches or mobile homes to which any single application may relate is 20.

Regulation 6 gives details of the information to be included with an application, and provides for additional documents for particular applications, as set out in sub-paragraph (2) of each paragraph of the Schedule to the Regulations.

Regulation 7 makes provision for the procedures that apply where a matter arising under the 2013 Act is transferred from a court to a tribunal.

Regulation 8 makes provision in respect of a tribunal acknowledging an application and sending to the respondent copy documents and a notice specifying the date by which the respondent should reply to the tribunal.

Regulation 9 deals with the respondent's reply.

Regulation 10 permits a tribunal to hold an urgent oral hearing at short notice where a Local Housing Authority has applied for authorisation of an interim management order under section 102(4) or (7) of the 2004 Act, and where it appears to the tribunal on the basis of information accompanying the application that specified exceptional circumstances exist.

Regulation 11 specifies the additional procedures that apply in respect of an application made under paragraph 7(1)(a) of Chapter 2, or paragraph 40(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act for a determination by a tribunal as to whether, having regard to its condition, a mobile home is having a detrimental effect on the amenity of the protected site.

Regulation 12 deals with applications to be joined as a party to the proceedings.

Regulation 13 specifies circumstances where two or more separate applications, or particular issues arising in separate applications, may be determined together.

Mae rheoliad 14 yn darparu, pan na fo ffi ar gyfer cais wedi ei thalu o fewn 14 o ddiwrnodau, yr ystyrir bod y cais wedi ei dynnu yn ôl onid oes sail resymol dros beidio â gwneud hynny.

Mae rheoliad 15 yn galluogi cyflawni'r ddyletswydd i gyflenwi dogfen drwy ei chyflenwi i gynrychiolydd parti neu i gynrychiolydd person â buddiant, os gofynnir am hynny mewn ysgrifen.

Mae rheoliad 16 yn ei gwneud yn ofynnol bod tribiwnlys yn sicrhau bod personau â buddiant yn cael eu hysbysu ynglŷn â chais, gydag esboniad o'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais i ymuno fel parti yn yr achos.

Mae rheoliad 17 yn ymdrin â dosbarthu dogfennau perthnasol gan dribiwnlys.

Mae rheoliadau 18 a 19 yn ymdrin â phwerau tribiwnlys i orchymyn cyflenwi gwybodaeth a dogfennau, ac â methiant i gydymffurfio â gorchymyn o'r fath.

Mae rheoliad 20 yn galluogi tribiwnlys i benderfynu cais heb gynnal gwrandawriad llafar. Rhaid rhoi rhybudd o 14 o ddiwrnodau o leiaf i'r partïon o'r bwriad i weithredu felly. Mae hawl gan y partïon i ofyn am wrandawriad llafar. Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel benderfynu bod cynnal gwrandawriad llafar yn briodol.

Mae rheoliad 21 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorchymynion interim, ac eithrio wrth benderfynu cais o dan adran 102(4) neu (7) o Ddeddf 2004.

Mae rheoliad 22 yn gwneud darpariaeth weithdrefnol mewn cysylltiad â chyfarwyddydau o dan bŵer cyffredinol tribiwnlys yn adran 230(2) o Ddeddf 2004.

Mae rheoliad 23 yn ymdrin ag arolygu'r fangre.

Mae rheoliad 24 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi tystiolaeth arbenigol gerbron tribiwnlys.

Mae rheoliad 25 yn galluogi tribiwnlys i gynnal cynhadledd rheoli achos (sydd wedi ei diffinio i gynnwys adolygiad cyn treial) ar ôl rhoi rhybudd o ddim llai na 7 niwrnod i'r partïon.

Mae rheoliad 26 yn rhoi manylion am weddill pwerau tribiwnlys o ran rheoli achosion. Mae rheoliad 26(1)(a) yn caniatáu i dribiwnlys gwtogi'r amser a bennir yn y Rheoliadau ar gyfer y gwahanol gamau mewn achos, pan fo'r partïon i gyd yn cytuno i'r cwtogiad sydd dan sylw. Mae rheoliad 26(1)(b) yn caniatáu i dribiwnlys estyn yr amser a bennir yn y Rheoliadau ar gyfer y gwahanol gamau mewn achos.

Mae rheoliad 27 yn ymdrin â rhoi hysbysiad sy'n pennu dyddiad, amser a lleoliad gwrandawriad, a rheoliad 28 yn rhoi pŵer i dribiwnlys ohirio gwrandawriad.

Regulation 14 provides that where an application fee is unpaid for 14 days, the application is treated as withdrawn unless there are reasonable grounds not to do so.

Regulation 15 enables the duty to supply a document to be satisfied by supplying it to a party's or interested person's representative where this is requested in writing.

Regulation 16 requires a tribunal to ensure that interested persons are notified of an application together with an explanation of the procedure for applying to be joined as a party.

Regulation 17 deals with distribution of relevant documents by a tribunal.

Regulations 18 and 19 deal with a tribunal's powers to order the supply of information and documents, and with failure to comply with such an order.

Regulation 20 enables a tribunal to determine an application without an oral hearing. A minimum of 14 days' notice must be given to the parties of the intention to proceed in this way. The parties have a right to request an oral hearing. A single qualified member of the panel may decide that an oral hearing is appropriate.

Regulation 21 makes provision for interim orders, other than in the case of determination of an application under section 102(4) or (7) of the 2004 Act.

Regulation 22 makes procedural provision in respect of directions under a tribunal's general power in section 230(2) of the 2004 Act.

Regulation 23 deals with inspection of the premises.

Regulation 24 makes provision for adducing expert evidence to a tribunal.

Regulation 25 enables a tribunal to hold a case management conference (which is defined to include a pre-trial review) on not less than 7 days' notice to the parties.

Regulation 26 gives details of a tribunal's remaining case management powers. Regulation 26(1)(a) allows a tribunal to reduce the time specified in the Regulations for various steps in the action where all parties agree to the reduction in question. Regulation 26(1)(b) allows a tribunal to extend the time specified in the Regulations for various steps in the action.

Regulation 27 deals with giving notice appointing the date, time and place of a hearing, and regulation 28 gives a tribunal power to postpone a hearing.

Mae rheoliad 29 yn nodi pwerau tribiwnlys yn ystod gwrandawriad, a rheoliad 30 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y caniateir cynnal gwrandawriad yn breifat, fel eithriad i'r rheol gyffredinol y dylid ei gynnal yn gyhoeddus.

Mae rheoliad 31 yn nodi pwy sydd â hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawriad a gynhelir yn breifat, ac yn ystod trafodaethau'r tribiwnlys wrth iddo benderfynu'r cais.

Mae rheoliad 32 yn galluogi tribiwnlys i fynd ymlaen â gwrandawriad yn absenoldeb parti a fethodd ag ymddangos.

Mae rheoliad 33 yn nodi sut a pha bryd y bydd tribiwnlys yn rhoi ei benderfyniad.

Mae rheoliad 34 yn darparu na chaiff tribiwnlys ddyfarnu costau o dan ei bwerau ym mharagraff 12 o Atodlen 13 i Ddeddf 2004 heb roi cyfle i'r parti dan sylw gyflwyno sylwadau.

Mae rheoliad 35 yn pennu sut y gellir tynnu cais yn ôl, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ac yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni mewn amgylchiadau penodol fel bod tynnu cais yn ôl yn cael effaith.

Mae rheoliad 36 yn darparu ar gyfer gorfodi penderfyniad tribiwnlys yn y llys sirol, gyda chaniatâd y llys.

Mae rheoliad 37 yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â cheisiadau i dribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd).

Mae rheoliad 38 yn ei gwneud yn ofynnol bod tribiwnlys yn gwneud trefniadau priodol os oes angen gwasanaethau cyfieithu, dehongli, neu gymorth arall ar unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn yr achos, er mwyn ei alluogi i gyfranogi'n effeithiol yn yr achos.

Mae rheoliad 39 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â chyflenwi dogfen neu hysbysiad o dan y Rheoliadau. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys yr amgylchiadau pan fo'n dderbyniol cyfathrebu drwy ffacs, cyfathrebiad electronig neu wasanaeth danfon dogfennau preifat.

Mae rheoliad 40 yn darparu os yw'r amser a bennir yn y Rheoliadau ar gyfer cyflawni unrhyw weithred yn dod i ben ar benwythnos neu ŵyl gyhoeddus, ystyrir y bydd y weithred wedi ei chyflawni mewn pryd os cyflawnir hi ar y diwrnod gwaith nesaf sy'n dilyn.

Mae rheoliad 41 yn rhoi pŵer i dribiwnlys wrthod, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, unrhyw gais yr ystyrir ei fod yn wacaw neu'n flinderus, neu sydd rywfodd arall yn camddefnyddio proses tribiwnlys, ar ôl rhoi rhybudd o 14 o ddiwrnodau o leiaf i'r ceisydd. Mae

Regulation 29 sets out a tribunal's powers at a hearing, and regulation 30 makes provision as to when a hearing may be held in private as an exception to the general rule that it should be held in public.

Regulation 31 sets out those who are entitled to be present at hearings held in private and at the tribunal's deliberations to determine the application.

Regulation 32 enables a tribunal to proceed with a hearing in the absence of a party who fails to appear.

Regulation 33 sets out how and when a tribunal will give its decision.

Regulation 34 provides that a tribunal must not award costs under its powers contained in paragraph 12 of Schedule 13 to the 2004 Act without giving the party concerned the opportunity to make representations.

Regulation 35 specifies how an application may be withdrawn in whole or part, and stipulates the requirements that must be satisfied in certain circumstances for withdrawal of an application to become effective.

Regulation 36 provides for a decision of a tribunal to be enforced in the county court, with the court's leave.

Regulation 37 contains provisions relating to requests to a tribunal for permission to appeal to the Upper Tribunal (Lands Chamber).

Regulation 38 requires a tribunal to make appropriate arrangements where any person taking part in the proceedings requires translation, interpretation, or other assistance to enable effective participation in the proceedings.

Regulation 39 makes provision about what amounts to supply of a document or notice under the Regulations. The provision includes the circumstances in which communication by fax, electronic communication, or private delivery service, will be acceptable.

Regulation 40 provides that if the time specified by the Regulations for doing any act expires on a weekend or public holiday, the act will be in time if done on the next working day.

Regulation 41 gives a tribunal power to dismiss in whole or in part any application considered frivolous, vexatious, or otherwise an abuse of process after giving notice of at least 14 days to the applicant. It also gives the tribunal power to dismiss an application if

hefyd yn rhoi'r pŵer i'r tribiwnlys wrthod cais os yw'r ymgeisydd wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a ddyroddwyd gan y tribiwnlys, ar yr amod bod y tribiwnlys yn rhoi cyfle yn gyntaf i'r ymgeisydd gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r gwrthodiad arfaethedig.

Mae rheoliad 42 yn datgan na fydd afreoleidd-dra ar ran y partïon wrth gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, ohono'i hun, yn peri bod achos yn ddi-rym.

Mae rheoliad 43 yn caniatáu atgynhyrchu llofnod gan gyfrifiadur neu drwy ddull mecanyddol arall, ar yr amod yr ychwanegir enw'r person sy'n llofnodi o dan y llofnod, mewn modd sy'n galluogi adnabod y person hwnnw.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd mewn cysylltiad ag apelau a cheisiadau i dribiwnlysoedd, yn gymwys mewn perthynas ag apelau a cheisiadau o unrhyw un o'r disgrifiadau a bennir yn rheoliadau 44, 45, 46, 47 a 48.

Mae rheoliad 44 yn ei gwneud yn ofynnol talu ffi o £155 pan wneir cais i dribiwnlys o dan unrhyw un o ddarpariaethau Deddf 2004 a restrir yn y rheoliad hwnnw.

Mae rheoliad 45 yn ei gwneud yn ofynnol talu ffi o £155 pan wneir cais i dribiwnlys o dan unrhyw un o ddarpariaethau Deddf 1985 a restrir yn y rheoliad hwnnw.

Mae rheoliad 46 yn ei gwneud yn ofynnol talu ffi pan wneir cais i dribiwnlys o dan unrhyw un o'r darpariaethau yn Neddf 2013 a restrir yn y rheoliad hwnnw. Mae'r ffi sy'n daladwy yn amrywio rhwng £155 a £515.

Mae rheoliadau 47 a 48 yn ei gwneud yn ofynnol talu ffi o £155 pan wneir cais i dribiwnlys o dan unrhyw un o ddarpariaethau Deddf 2014 neu Ddeddf 2015 a restrir yn y rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 49 yn gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â thalu ffioedd.

Mae rheoliad 50 yn darparu bod y person sy'n gwneud y cais yn atebol i dalu'r ffi, ac yn darparu ar gyfer hepgor y ffi pan fydd y person hwnnw, neu bartner y person hwnnw, yn cael unrhyw un neu ragor o'r budd-daliadau a restrir yn rheoliad 50(2).

Mae rheoliad 51 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff tribiwnlys orchymyn un o'r partion i gais i ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd gan barti arall o dan reoliadau 44, 45, 46, 47 neu 48.

Mae rheoliad 52 yn rhestru'r Rheoliadau a'r Gorchmynion sy'n cael eu dirymu gan y Rheoliadau.

the applicant has failed to comply with a direction issued by the tribunal subject to the tribunal first giving the applicant the opportunity to make representations in relation to the proposed dismissal.

Regulation 42 states that irregularities by parties in complying with the Regulations will not in themselves render the proceedings void.

Regulation 43 allows reproduction of a signature by computer or other mechanical means, so long as the name of the person signing is added underneath in a way which enables that person to be identified.

Part 3 of the Regulations, which makes provision for the payment of fees in respect of appeals and applications to tribunals, apply in relation to appeals and applications of any of the descriptions specified in regulations 44, 45, 46, 47 and 48.

Regulation 44 requires a fee of £155 to be paid when an application is made to a tribunal under any of the provisions of the 2004 Act listed in that regulation.

Regulation 45 requires a fee of £155 to be paid when an application is made to a tribunal under any of the provisions of the 1985 Act listed in those regulations.

Regulation 46 requires a fee to be paid when an application is made to a tribunal under any of the provisions in the 2013 Act that are listed in that regulation. The fee payable ranges from £155 to £515.

Regulations 47 and 48 require a fee of £155 to be paid when an application is made to a tribunal under any of the provisions of the 2014 Act or the 2015 Act listed in those regulations.

Regulation 49 makes further provision in respect of payment of fees.

Regulation 50 provides for the person making the application to be liable for payment of the fee and for the fee to be waived where that person or that person's partner is in receipt of any of the benefits listed in regulation 50(2).

Regulation 51 sets out the circumstances in which a tribunal may order one party to an application to reimburse any fees incurred under regulation 44, 45, 46, 47 or 48 by another party.

Regulation 52 lists the Regulations and Orders that are revoked by the Regulations.

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau yn rhestru ceisiadau y caniateir eu gwneud i driwlynlys ac yn pennu, mewn cysylltiad â phob math o gais, y dogfennau ychwanegol y mae'n rhaid eu cynnwys gyda'r cais, ac yn nodi'r personau y caniateir eu henwi fel ymatebwyr i'r cais.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Schedule to the Regulations lists applications which may be made to a tribunal, and in respect of each type of application, specifies the additional documents which must be included with it, and identifies the persons who may be named as respondents to the application.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a Regulatory Impact Assessment as to the likely costs and benefits of complying with the Regulations.

2016 Rhif 1110 (Cy. 267)

2016 No. 1110 (W. 267)

TAI, CYMRU

HOUSING, WALES

**Rheoliadau Gweithdrefnau a
Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl
(Cymru) 2016**

**The Residential Property Tribunal
Procedures and Fees (Wales)
Regulations 2016**

Gwnaed 15 Tachwedd 2016
Yn dod i rym 23 Tachwedd 2016

Made 15 November 2016
Coming into force 23 November 2016

CYNNWYS

RHAN 1

Cyffredinol

1. Enwi, cychwyn a chymhwysio
2. Dehongli

RHAN 2

Gweithdrefnau Tribiwnlys Eiddo Preswyl

3. Y prif amcan a rhwymedigaeth y partion i gydwethredu â'r tribiwnlys
4. Gofyn am estyn yr amser a ganiateir ar gyfer gwneud cais
5. Terfyn ar nifer y lleiniau, y cartrefi symudol neu'r cyfeiriadau mewn cais unigol o dan Ddeddf 2013
6. Manylion cais
7. Ceisiadau yn dilyn trosglwyddo cais a wnaed o dan Ddeddf 2013 o'r llys i dribiwnlys
8. Cydnabod cael cais a hysbysu ynghylch cais gan dribiwnlys
9. Ateb gan yr ymatebydd
10. Ceisiadau brys am awdurdodiad GRHI
11. Ceisiadau o dan Ddeddf 2013 mewn perthynas ag effaith andwyol cartrefi symudol ar amwynder y safle
12. Cais gan berson am gael ei drin fel ceisydd neu ymatebydd
13. Penderfynu ceisiadau ar y cyd

CONTENTS

PART 1

General

1. Title, commencement and application
2. Interpretation

PART 2

Residential Property Tribunal Procedures

3. The overriding objective and parties' obligation to co-operate with the tribunal
4. Request for extension of time to make an application
5. Limit on the number of pitches, mobile homes or references on a single application under the 2013 Act
6. Particulars of application
7. Applications following transfer of application made under the 2013 Act from the court to a tribunal
8. Acknowledgements and notification of application by tribunal
9. Reply by respondent
10. Urgent IMO authorisation applications
11. Applications under the 2013 Act relating to detrimental effect of mobile homes on the amenity of the site
12. Request by a person to be treated as an applicant or respondent
13. Determining applications together

14.	Talu ffioedd	14.	Payment of fees
15.	Cynrychiolwyr	15.	Representatives
16.	Cyflenwi gwybodaeth a dogfennau i bersonau â buddiant	16.	Supply of information and document to interested persons
17.	Cyflenwi dogfennau gan dribiwnlys	17.	Supply of documents by tribunal
18.	Cyflenwi gwybodaeth a dogfennau gan bartïon	18.	Supply of information and documents by parties
19.	Methiant i gydymffurfio â gorchymyn i gyflenwi gwybodaeth a dogfennau	19.	Failure to comply with an order to supply information and documents
20.	Penderfynu heb wrandawriad	20.	Determination without a hearing
21.	Gorchmynion interim	21.	Interim orders
22.	Cyfarwyddydau	22.	Directions
23.	Arolygu mangreodded a'u cyffiniau	23.	Inspection of premises and neighbourhood
24.	Tystiolaeth arbenigol	24.	Expert evidence
25.	Cynhadledd rheoli achos	25.	Case management conference
26.	Pwerau rheoli achos eraill	26.	Other case management powers
27.	Hysbysu ynghylch gwrandawriad	27.	Notice of hearing
28.	Gohirio gwrandawriad	28.	Postponement of hearing
29.	Y gwrandawriad	29.	Hearing
30.	Gwrandawriad cyhoeddus neu breifat	30.	Hearing in public or private
31.	Personau sydd â hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawriad a gynhelir yn breifat	31.	Persons entitled to be present at a hearing held in private
32.	Methiant parti i ymddangos mewn gwrandawriad	32.	Failure of a party to appear at a hearing
33.	Penderfyniadau tribiwnlys wrth ddyfarnu ynghylch ceisiadau	33.	Decisions of a tribunal in determining applications
34.	Penderfynu ynghylch costau	34.	Determination of costs
35.	Tynnu cais yn ôl	35.	Withdrawal of application
36.	Gorfodi	36.	Enforcement
37.	Caniatâd i apelio	37.	Permission to appeal
38.	Cymorth i gyfranogwyr	38.	Assistance to participants
39.	Gofynion ynghylch cyflenwi hysbysiadau a dogfennau	39.	Requirements for supply of notices and documents
40.	Amser	40.	Time
41.	Ceisiadau gwacsaw a blinderus etc.	41.	Frivolous and vexatious etc. applications
42.	Afreoleidd-dra	42.	Irregularities
43.	Llofnodi dogfennau	43.	Signature of documents

RHAN 3

Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl

44.	Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 1985
45.	Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004
46.	Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2013
47.	Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2014
48.	Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2015
49.	Talu ffioedd

PART 3

Residential Property Tribunal Fees

44.	Fees for applications made under the 1985 Act
45.	Fees for applications made under the 2004 Act
46.	Fees for applications made under the 2013 Act
47.	Fees for applications made under the 2014 Act
48.	Fees for applications made under the 2015 Act
49.	Payment of fees

- 50. Atebolrwydd i dalu ffi a hepgor ffioedd
- 51. Ad-dalu ffioedd
- 52. Dirymu

YR ATODLEN

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau o dan adran 250(2)(a) a (b) o Ddeddf Tai 2004(1), ac Atodlen 13 iddi, ac a freinir bellach ynddynt hwy(2) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 250(6)(g) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

RHAN 1 CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016, a deuant i rym ar 23 Tachwedd 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i achosion gerbron tribiwnlysoedd eiddo preswyl ar gyfer penderfynu ceisiadau mewn cysylltiad â mangreodded yng Nghymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “annedd” yr un ystyr ag a roddir i “dwelling” yn adran 322 o Ddeddf 1985 ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw gais a wneir o dan Ddeddf 2014 ac yn yr achos hwnnw mae i “annedd” yr un ystyr ag a roddir yn adran 2(1) o Ddeddf 2014;

mae i “asiant gosod”, mewn cysylltiad â chais a wneir o dan Ddeddf 2015, yr un ystyr ag a roddir i “letting agent” yn adran 84 o Ddeddf 2015;

ystyr “ATLI” (“LHA”) yw awdurdod tai lleol;

mae i “awdurdod pwysau a mesurau lleol”, mewn cysylltiad â chais a wneir o dan Ddeddf 2015, yr un ystyr ag a roddir i “local weights and measures authority” yn adran 69(2) o Ddeddf Pwysau a Mesurau 1985;

(1) 2004 p. 34.

(2) Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Tai 2004 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(2)(c) o Atodlen 11 iddi.

- 50. Liability of pay fee and waiver of fees
- 51. Reimbursement of fees
- 52. Revocation

SCHEDULE

The Welsh Ministers, in exercise of the powers under section 250(2)(a) and (b) of, and Schedule 13 to, the Housing Act 2004(1) now vested in them(2) make the following Regulations.

In accordance with section 250(6)(g) of that Act a draft of these Regulations has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

PART 1 GENERAL

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) Regulations 2016 and they come into force on 23 November 2016.

(2) These Regulations apply to proceedings of residential property tribunals for determining applications in respect of premises in Wales.

Interpretation

2. In these Regulations—

“the 1985 Act” (“*Deddf 1985*”) means the Housing Act 1985(3);

“the 2004 Act” (“*Deddf 2004*”) means the Housing Act 2004(4);

“the 2013 Act” (“*Deddf 2013*”) means the Mobile Homes (Wales) Act 2013(5);

“the 2014 Act” (“*Deddf 2014*”) means the Housing (Wales) Act 2014(6);

“the 2015 Act” (“*Deddf 2015*”) means the Consumer Rights Act 2015(7)

“application” (“*cais*”) means an application or appeal to a tribunal under—

(1) 2004 c. 34.

(2) The functions conferred on the National Assembly for Wales by the Housing Act 2004 are exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30(2)(c) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(3) 1985 c. 68.

(4) 2004 c. 34.

(5) 2013 anaw 6.

(6) 2014 anaw 7.

(7) 2015 c. 15.

mae i “awdurdod trwyddedu” (“*licensing authority*”) yr un ystyr ag a roddir yn adran 49(1) o Ddeddf 2014;

ystyr “cais” (“*application*”) yw cais neu apêl i dribiwnlys o dan—

- (a) Rhan 9 o Ddeddf 1985;
- (b) Deddf 2004;
- (c) Deddf 2013 (gan gynnwys unrhyw gais a wneir yn dilyn trosglwyddo unrhyw fater sy’n codi o gais a wnaed i’r llys o dan y Ddeddf honno);
- (d) y Rheoliadau Rheolau Safle(1);
- (e) adrannau 17(4), 27(1), 30, 31 a 32 o Ddeddf 2014; neu
- (f) Deddf 2015,

ac mae i “ceisydd” (“*applicant*”) ystyr cyfatebol;

ystyr “cais am awdurdodiad GRhI” (“*IMO authorisation application*”) yw cais am awdurdodiad i wneud gorchymyn rheoli interim o dan adran 102(4) neu (7) o Ddeddf 2004;

mae i “cartref symudol” (“*mobile home*”) yr un ystyr ag a roddir yn adran 60 o Ddeddf 2013;

mae i “credyd cynhwysol” yr un ystyr ag a roddir i “universal credit” yn adran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(2);

ystyr “cymdeithas trigolion gymwys” (“*qualifying residents’ association*”) yw cymdeithas sy’n bodloni’r gofynion a nodir yn adran 61 o Ddeddf 2013;

ystyr “cynhadledd rheoli achos” (“*case management conference*”) yw adolygiad cyn treial neu unrhyw gyfarfod arall a gynhelir gan dribiwnlys i’r diben o reoli’r achos mewn cysylltiad â chais;

ystyr “datganiad o resymau” (“*statement of reasons*”) yw datganiad o resymau a baratowyd gan yr ATLI o dan adran 8 o Ddeddf 2004 (rhesymau dros benderfyniad i gymryd camau gorfodi);

ystyr “Deddf 2015” (“*the 2015 Act*”) yw Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015(3);

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Tai (Cymru) 2014(4);

ystyr “Deddf 2013” (“*the 2013 Act*”) yw Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(5);

(a) Part 9 of the 1985 Act;

(b) the 2004 Act;

(c) the 2013 Act (including any application made following the transfer of any matter arising from an application to the court made under that Act);

(d) the Site Rules Regulations(1);

(e) sections 17(4), 27(1), 30, 31 and 32 of the 2014 Act; or

(f) the 2015 Act,

and “applicant” (“*ceisydd*”) bears a corresponding meaning;

“appropriate person” (“*person priodol*”) has the same meaning as in section 73(10) of the 2004 Act;

“case management conference” (“*cynhadledd rheoli achos*”) means a pre-trial review or any other meeting held by a tribunal for the purpose of managing the proceedings in respect of an application;

“dwelling” (“*annedd*”) has the same meaning as in section 322 of the 1985 Act except in relation to any application made under the 2014 Act in which case it has the same meaning as in section 2(1) of the 2014 Act;

“dwelling-house” (“*tŷ annedd*”) has the same meaning as in section 183 of the 1985 Act;

“EDMO” (“*GRhAG*”) means an empty dwelling management order and it has the same meaning as in section 132 of the 2004 Act;

“IMO authorisation application” (“*cais am awdurdodiad GRhI*”) means an application for authorisation to make an interim management order under section 102(4) or (7) of the 2004 Act;

“interested person” (“*person â buddiant*”) means in relation to a particular application—

(a) a person other than the applicant who would have been entitled under the 2004 Act or the 1985 Act (as the case may be) to make the application;

(b) a person to whom notice of the application must be given by the applicant in accordance with the following provisions of the 2004 Act—

(i) paragraph 11(2) of Schedule 1; or

(ii) paragraph 14(2) of Schedule 3;

(c) a person to whom the tribunal must give the opportunity of being heard in accordance with the following provisions—

(1) O.S. 2014/1764 (Cy. 179).

(2) 2012 p. 5.

(3) 2015 p. 15.

(4) 2014 dccc 7.

(5) 2013 dccc 6.

(1) S.I. 2014/1764 (W. 179).

ystyr “Deddf 2004” (“*the 2004 Act*”) yw Deddf Tai 2004(1);

ystyr “Deddf 1985” (“*the 1985 Act*”) yw Deddf Tai 1985(2);

ystyr “GRhAG” yw gorchymyn rheoli annedd gwag ac mae iddo yr un ystyr ag “EMDO” yn adran 132 o Ddeddf 2004;

mae i “landlord” (“*landlord*”), at ddibenion ceisiadau o dan adrannau 17(4), 27(1), 30 neu 32 o Ddeddf 2014, yr un ystyr ag a roddir yn adran 2(1) o’r Ddeddf honno;

mae i “llain” (“*pitch*”) yr un ystyr ag a roddir yn adran 55 o Ddeddf 2013;

ystyr “mangre” (“*premises*”) yw—

- (a) mewn unrhyw gais ac eithrio cais a wneir o dan Ddeddf 2013, y Rheoliadau Rheolau Safle neu Ddeddf 2015, yr annedd y mae’r cais yn ymwneud â hi neu’r adeilad y mae’n ymwneud ag ef;
- (b) mewn unrhyw gais a wneir o dan Ddeddf 2013 neu’r Rheoliadau Rheolau Safle, y llain y mae’r cais yn ymwneud â hi neu’r safle gwarchoddedig neu’r cartref symudol y mae’r cais yn ymwneud ag ef; ac
- (c) mewn cais a wneir o dan Ddeddf 2015, unrhyw fangre, y dylai cyhoeddusrwydd fod wedi ei roi yno i ffi’r asiant gosod, y mae cais yn ymwneud â hi;

ystyr “meddiannydd” (“*occupier*”), mewn cysylltiad â chais a wneir o dan Ddeddf 2013, yw’r person sydd â hawl i leoli’r cartref symudol ar dir sy’n ffurfio rhan o’r safle gwarchoddedig, ac i feddiannu’r cartref symudol fel unig neu brif breswylfa’r person hwnnw o dan gytundeb y mae Deddf 2013 yn gymwys iddo;

mae i “perchennog safle” (“*site owner*”) mewn perthynas â safle gwarchoddedig, yr un ystyr ag a roddir i “perchennog” yn adran 62 o Ddeddf 2013;

ystyr “person â buddiant” (“*interested person*”) mewn perthynas â chais penodol yw—

- (a) person, ac eithrio’r ceisydd, a fyddai wedi bod â hawl o dan Ddeddf 2004 neu Ddeddf 1985 (yn ôl y digwydd) i wneud y cais;
- (b) person y mae’n rhaid i’r ceisydd roi hysbysiad o’r cais iddo yn unol â’r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2004—
 - (i) paragraff 11(2) o Atodlen 1; neu
 - (ii) paragraff 14(2) o Atodlen 3;

(i) section 34(4) of the 2004 Act; or

(ii) section 317(2) of the 1985 Act;

- (d) except the LHA, where it is not a party to the application in relation to an application made under Part 4 of, or Schedule 2 to, the 2013 Act;
- (e) the person to whom the occupier wants to sell or gift a mobile home under paragraphs 9 to 13 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act;
- (f) the person to whom the occupier wants to assign a pitch under paragraphs 41(1)(a) or 41(1)(b) of Chapter 4 of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act;
- (g) a qualifying residents’ association;
- (h) in relation to an application under Part 2 of the 2013 Act, where applicable, the site owner or the site manager, where that person is not a party to the application;

“landlord” (“*landlord*”), for the purposes of applications under sections 17(4), 27(1), 30 or 32 of the 2014 Act, has the same meaning as in section 2(1) of that Act;

“letting agent” (“*asiant gosod*”), in respect of an application made under the 2015 Act, has the same meaning as in section 84 of the 2015 Act;

“LHA” (“*ATLL*”) means a local housing authority;

“licensing authority” (“*awdurdod trwyddedu*”) has the same meaning as in section 49(1) of the 2014 Act;

“local weights and measures authority” (“*awdurdod pwysau a mesurau lleol*”) in respect of an application made under the 2015 Act, has the same meaning as in section 69(2) of the Weights and Measures Act 1985;

“mobile home” (“*cartref symudol*”) has the same meaning as in section 60 of the 2013 Act;

“occupier” (“*meddiannydd*”) means, in respect of an application made under the 2013 Act, the person entitled to station the mobile home on land forming part of the protected site and to occupy the mobile home as that person’s only or main residence under an agreement to which the 2013 Act applies;

“pitch” (“*llain*”) has the same meaning as is given in section 55 of the 2013 Act;

“premises” (“*mangre*”) means—

- (a) in any application except an application made under the 2013 Act, the Site Rules Regulations or the 2015 Act, the dwelling or building to which the application relates;

(1) 2004 p. 34.

(2) 1985 p. 68.

- (c) person y mae'n rhaid i'r tribiwnlys roi cyfle iddo gael ei glywed yn unol â'r darpariaethau a ganlyn—
 - (i) adran 34(4) o Ddeddf 2004; neu
 - (ii) adran 317(2) o Ddeddf 1985;
- (d) ac eithrio'r ATLL, pan nad yw'n barti i'r cais, mewn perthynas â chais a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf 2013 neu Atodlen 2 iddi;
- (e) y person y mae'r meddiannydd yn dymuno gwerthu neu roi cartref symudol yn anrheg iddo o dan baragraffau 9 i 13 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013;
- (f) y person y mae'r meddiannydd yn dymuno aseinio llain iddo o dan baragraffau 41(1)(a) neu 41(1)(b) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013;
- (g) cymdeithas trigolion gymwys;
- (h) mewn perthynas â chais o dan Ran 2 o Ddeddf 2013, pan fo'n gymwys, perchennog y safle neu reolwr y safle, pan na fo'r person hwnnw'n barti i'r cais;

mae i "person priodol" yr un ystyr ag a roddir i "appropriate person" yn adran 73(10) o Ddeddf 2004;

ystyr "y Rheoliadau Rheolau Safle" (*"the Site Rules Regulations"*) yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014;

mae i "safle gwarchoddedig" (*"protected site"*) yr un ystyr ag a roddir yn adran 2(2) o Ddeddf 2013;

ystyr "tribiwnlys" (*"tribunal"*) yw tribiwnlys eiddo preswyl, ac ystyr "y tribiwnlys" (*"the tribunal"*) mewn perthynas â chais yw'r tribiwnlys sydd i benderfynu'r cais;

mae i "tŷ annedd" yr un ystyr ag a roddir i "dwelling house" yn adran 183 o Ddeddf 1985; ac ystyr "yr ymatebydd" (*"the respondent"*), mewn cysylltiad â phob cais y mae paragraff yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo, yw'r person neu'r personau, neu un o'r personau, a bennir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwnnw.

RHAN 2

Gweithdrefnau Tribiwnlys Eiddo Preswyl

Y prif amcan a rhwymedigaeth y partïon i gydweithredu â'r tribiwnlys

3.—(1) Pan fo tribiwnlys—

- (a) yn arfer unrhyw bŵer o dan y Rheoliadau hyn; neu

- (b) in any application made under the 2013 Act or the Site Rules Regulations, the pitch, protected site or mobile home to which the application relates; and
- (c) in an application made under the 2015 Act, any premises at which the letting agency fee, to which an application relates, should have been publicised;

"protected site" (*"safle gwarchoddedig"*) has the same meaning as in section 2(2) of the 2013 Act;

"qualifying residents' association" (*"cymdeithas trigolion gymwys"*) means an association that meets the requirements set out in section 61 of the 2013 Act;

"the respondent" (*"yr ymatebydd"*) means, in respect of each application to which a paragraph of the Schedule to these Regulations applies, the person or persons, or one of the persons, specified in sub-paragraph (3) of that paragraph;

"site owner" (*"perchennog safle"*) in relation to a protected site, has the same meaning as "owner" in section 62 of the 2013 Act;

"the Site Rules Regulations" (*"y Rheoliadau Rheolau Safle"*) means the Mobile Homes (Site Rules) (Wales) Regulations 2014;

"statement of reasons" (*"datganiad o resymau"*) means a statement of reasons prepared by the LHA under section 8 of the 2004 Act (reasons for decision to take enforcement action);

"tribunal" (*"tribiwnlys"*) means a residential property tribunal, and "the tribunal" (*"y tribiwnlys"*) in relation to an application means the tribunal by which the application is to be determined; and

"universal credit" (*"credyd cynhwysol"*) has the same meaning as in section 1 of the Welfare Reform Act 2012(1).

PART 2

Residential Property Tribunal Procedures

The overriding objective and parties' obligation to co-operate with the tribunal

3.—(1) When a tribunal—

- (a) exercises any power under these Regulations; or

(1) 2012 c. 5.

- (b) yn dehongli unrhyw reoliad yn y Rheoliadau hyn,

rhaid iddo geisio rhoi effaith i'r prif amcan o ymdrin yn deg ac yn gyfiawn â'r ceisiadau sydd i'w penderfynu ganddo.

(2) Mae ymdrin yn deg ac yn gyfiawn â chais yn cynnwys—

- (a) ymdrin â'r cais mewn ffyrdd sy'n gymesur â chymhlethdod y materion sy'n codi ynddo ac ag adnoddau'r partïon;
- (b) sicrhau, hyd y bo'n ymarferol, fod y partïon ar yr un gwastad â'i gilydd o safbwynt y weithdrefn ac y gallant gymryd rhan gyflawn yn yr achos;
- (c) cynorthwyo unrhyw barti gyda chyflwyno achos y parti heb argymhell pa lwybr y dylai'r parti ei ddilyn;
- (d) defnyddio arbenigedd neilltuol y tribiwnlys yn effeithiol; ac
- (e) osgoi oedi, i'r graddau y bo hynny'n gydnaws â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion o dan sylw.

(3) Rhaid i'r partïon—

- (a) cynorthwyo'r tribiwnlys i geisio rhoi effaith i'r prif amcan; a
- (b) cydweithredu â'r tribiwnlys yn gyffredinol.

Gofyn am estyn yr amser a ganiateir ar gyfer gwneud cais

4.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person yn gofyn i dribiwnlys am ganiatâd i wneud cais ar ôl diwedd y cyfnod a bennir yn Neddf 2004, Deddf 2013, Deddf 2014, Deddf 2015 neu'r Rheoliadau Rheolau Safle fel y cyfnod mae'n rhaid gwneud y cais oddi mewn iddo.

(2) Rhaid i gais am estyniad y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo—

- (a) bod mewn ysgriflen;
- (b) rhoi'r rhesymau dros y methiant i wneud y cais cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a thros unrhyw oedi ers hynny;
- (c) cynnwys datganiad bod y person sy'n gwneud y cais am estyniad yn credu bod y ffeithiau a ddatgenir ynddo yn wir; a
- (d) cael ei ddyddio a'i lofnodi.

(3) Pan wneir cais am estyniad fel a grybwyllir ym mharagraff (1), rhaid i'r ceisydd ar yr un pryd anfon at y tribiwnlys y cais cyflawn y gofynnir am yr estyniad mewn perthynas ag ef.

- (b) interprets any regulation of these Regulations,

it must seek to give effect to the overriding objective of dealing fairly and justly with applications which it is to determine.

(2) Dealing with an application fairly and justly includes—

- (a) dealing with it in ways which are proportionate to the complexity of the issues and to the resources of the parties;
- (b) ensuring, so far as practicable, that the parties are on an equal footing procedurally and are able to participate fully in the proceedings;
- (c) assisting any party in the presentation of the party's case without advocating the course the party should take;
- (d) using the tribunal's special expertise effectively; and
- (e) avoiding delay, so far as is compatible with proper consideration of the issues.

(3) Parties must—

- (a) help the tribunal to seek to give effect to the overriding objective; and
- (b) co-operate with the tribunal generally.

Request for extension of time to make an application

4.—(1) This regulation applies where a person makes a request to a tribunal for permission to make an application after the end of the period stipulated in the 2004 Act, the 2013 Act, the 2014 Act, the 2015 Act or the Site Rules Regulations as the period within which the application must be made.

(2) A request to which this regulation applies must—

- (a) be in writing;
- (b) give reasons for the failure to make the application before the end of that period and for any delay since then;
- (c) include a statement that the person making the request believes that the facts stated in it are true; and
- (d) be dated and signed.

(3) Where a request mentioned in paragraph (1) is made, the applicant must at the same time send the completed application to which the request relates to the tribunal.

(4) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel ganiatáu neu wrthod cais am estyniad a wneir o dan baragraff (1).

Terfyn ar nifer y lleiniau, y cartrefi symudol neu'r cyfeiriadau mewn cais unigol o dan Ddeddf 2013

5.—(1) Pan fo cais i dribiwnlys ar gyfer penderfynu unrhyw gwestiwn sy'n codi o dan Ddeddf 2013 yn ymwneud â mwy nag un llain neu gartref symudol, ni chaiff y cais gyfeirio at fwy nag un ddarpariaeth yn Neddf 2013.

(2) Ni chaiff cais a wneir i dribiwnlys ar gyfer penderfynu unrhyw gwestiwn sy'n codi o dan Ddeddf 2013 ymwneud â mwy nag 20 o leiniau neu gartrefi symudol.

Manylion cais

6.—(1) Rhaid i gais fod mewn ysgrifen a rhaid iddo gynnwys y manylion a ganlyn—

- (a) enw a chyfeiriad y ceisydd;
- (b) enw a chyfeiriad yr ymatebydd os yw'r manylion hynny'n hysbys i'r ceisydd neu, os nad ydynt yn hysbys, ddisgrifiad o gysylltiad yr ymatebydd â'r fangre;
- (c) cyfeiriad y fangre;
- (d) cysylltiad y ceisydd â'r fangre;
- (e) rhesymau'r ceisydd dros wneud y cais, gan gynnwys pa rwymedi a geisir;
- (f) pan fônt yn hysbys i'r ceisydd, enw a chyfeiriad unrhyw berson â buddiant;
- (g) datganiad bod y ceisydd yn credu bod y ffeithiau a ddatgenir yn y cais yn wir;
- (h) bod wedi ei lofnodi a'i ddyddio; ac
- (i) mewn cysylltiad â phob cais y mae paragraff yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo, y dogfennau a bennir yn is-baragraff (2) o'r paragraff hwnnw.

(2) Caniateir hepgor neu liniaru unrhyw un neu ragor o'r gofynion ym mharagraff (1) os bodlonir y tribiwnlys—

- (a) bod y manylion a'r dogfennau a gynhwysir mewn cais yn ddigonol i ddangos bod y cais yn un y caniateir ei wneud i dribiwnlys; a
- (b) na fydd unrhyw ragfarn yn cael ei hachosi, neu'n debygol o gael ei hachosi, i unrhyw barti i'r cais o ganlyniad i hepgor neu liniaru o'r fath.

(3) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel arfer y pŵer a roddir gan baragraff (2).

(4) A single qualified member of the panel may grant or refuse a request made under paragraph (1).

Limit on the number of pitches, mobile homes or references on a single application under the 2013 Act

5.—(1) Where an application to a tribunal to determine any question arising under the 2013 Act relates to more than one pitch or mobile home, the application may refer to only one provision of the 2013 Act.

(2) No application to a tribunal to determine any question arising under the 2013 Act may relate to more than 20 pitches or mobile homes.

Particulars of application

6.—(1) An application must be in writing and must contain the following particulars—

- (a) the name and address of the applicant;
- (b) the name and address of the respondent where known to the applicant or, where not known, a description of the respondent's connection with the premises;
- (c) the address of the premises;
- (d) the applicant's connection with the premises;
- (e) the applicant's reasons for making the application including the remedy sought;
- (f) where known to the applicant, the name and address of any interested person;
- (g) a statement that the applicant believes that the facts stated in the application are true;
- (h) be dated and signed; and
- (i) in respect of each application to which a paragraph in the Schedule to these Regulations applies, the documents specified in sub-paragraph (2) of that paragraph.

(2) Any of the requirements contained in paragraph (1) may be dispensed with or relaxed if the tribunal is satisfied that—

- (a) the particulars and documents contained in an application are sufficient to establish that the application is one which may be made to a tribunal; and
- (b) no prejudice will be, or is likely to be, caused to any party to the application as a result of such dispensation or relaxation.

(3) A single qualified member of the panel may exercise the power conferred by paragraph (2).

Ceisiadau yn dilyn trosglwyddo cais a wnaed o dan Ddeddf 2013 o'r llys i dribiwnlys

7.—(1) Pan fo llys yn trosglwyddo i dribiwnlys unrhyw fater sy'n codi o gais a wnaed i'r llys o dan Ddeddf 2013, rhaid i'r ceisydd, yn ychwanegol at gydymffurfio â'r gofynion a gynhwysir yn rheoliad 6(1), gynnwys yn y cais gopi o'r gorchymyn llys a drosglwyddodd y mater.

(2) Caiff y tribiwnlys hepgor neu liniaru unrhyw un neu ragor o'r gofynion a gynhwysir ym mharagraff (1) os bodlonir y tribiwnlys ei fod wedi cael manylion a dogfennau digonol gan y llys i ddangos bod y cais yn un y caniateir ei wneud i dribiwnlys.

(3) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel arfer y pŵer a roddir gan baragraff (2).

Cydnabod cael cais a hysbysu ynghylch cais gan dribiwnlys

8.—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael y cais, rhaid i'r tribiwnlys anfon at y ceisydd i gydnabod bod y cais wedi dod i law, ac anfon copi o'r cais ac o bob dogfen a gyflwynwyd gyda'r cais at yr ymatebydd.

(2) Ac eithrio mewn achos y mae rheoliad 10 yn gymwys iddo, rhaid i'r tribiwnlys anfon hefyd hysbysiad at yr ymatebydd sydd—

- (a) yn pennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r ymatebydd anfon yr ateb a grybwyllir yn rheoliad 9;
- (b) yn pennu bod rhaid i unrhyw ymateb gynnwys—
 - (i) datganiad pa un a yw'r ymatebydd yn bwriadu gwrthwynebu'r cais ai peidio;
 - (ii) os na chynhwyswyd hwy eisoes yn y cais, enw a chyfeiriad pob person â buddiant sy'n hysbys i'r ymatebydd; a
- (iii) y cyfeiriad lle dylid anfon dogfennau at ddibenion yr achos; ac
- (c) yn rhybuddio'r ymatebydd, os na fydd yr ymatebydd yn ymateb erbyn y dyddiad penodedig, a chyda'r wybodaeth benodedig, y caiff y tribiwnlys—
 - (i) tybio nad yw'r ymatebydd yn bwriadu gwrthwynebu'r cais; a
 - (ii) mynd ymlaen â'r mater mewn unrhyw ffordd a ystyrir yn rhesymol ganddo o dan amgylchiadau'r achos.

(3) Ni chaiff y dyddiad penodedig yn yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (2) fod yn llai na 14 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y'i gwnaed.

Applications following transfer of application made under the 2013 Act from the court to a tribunal

7.—(1) Where a court transfers to a tribunal any matter arising from an application to the court made under the 2013 Act, the applicant must, in addition to complying with the requirements contained in regulation 6(1), include in the application a copy of the court order by which the matter was transferred.

(2) The tribunal may dispense with or relax any of the requirements contained in paragraph (1) if the tribunal is satisfied that it has received sufficient particulars and documents from the court to establish that the application is one which may be made to a tribunal.

(3) A single qualified member of the panel may exercise the power conferred by paragraph (2).

Acknowledgement and notification of application by tribunal

8.—(1) As soon as practicable after receiving the application, the tribunal must send an acknowledgement of receipt to the applicant, and send a copy of the application and of each document accompanying it to the respondent.

(2) Except in a case to which regulation 10 applies, the tribunal must also send to the respondent a notice—

- (a) specifying the date by which the respondent must send the reply mentioned in regulation 9;
- (b) specifying that any response must include—
 - (i) a statement as to whether or not the respondent intends to oppose the application;
 - (ii) where not already included in the application, the name and address of each interested person known to the respondent; and
- (iii) the address to which documents should be sent for the purposes of the proceedings; and
- (c) warning the respondent that if the respondent does not respond by the date specified, and with the information specified the tribunal may—
 - (i) assume that the respondent does not intend to oppose the application; and
 - (ii) proceed with the matter in any way it considers to be reasonable in the circumstances of the case.

(3) The date specified in the notice referred to in paragraph (2) must not be less than 14 days after the date specified in the notice as the date on which it was made.

Ateb gan yr ymatebydd

9.—(1) Pan fo ymatebydd yn cael yr hysbysiad a grybwyllir yn rheoliad 8(2), rhaid i'r ymatebydd, erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, anfon ateb ysgrifenedig at y tribiwnlys, yn cydnabod iddo gael y copïau o'r dogfennau a anfonwyd yn unol â rheoliad 8(1) ac yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan reoliad 8(2).

(2) Pan fo'r ymatebydd yn methu ag ymateb erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad a grybwyllir yn rheoliad 8(2) neu'n methu â darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y paragraff hwnnw, caiff y tribiwnlys fynd ymlaen â'r mater mewn unrhyw ffordd a ystyrir yn rhesymol ganddo o dan amgylchiadau'r achos.

Ceisiadau brys am awdurdodiad GRhI

10.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r ATLI yn gofyn i dribiwnlys ymdrin â chais am awdurdodiad GRhI fel mater brys.

(2) Pan fo'n ymddangos i'r tribiwnlys, ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais, fod yr amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) yn bodoli, rhaid i'r tribiwnlys orchymyn cynnal gwrandawriad llafar ("gwrandawriad llafar brys").

(3) Yr amgylchiadau eithriadol yw'r canlynol—

- (a) bod bygythiad di-oed i iechyd a diogelwch meddianwyr y tŷ neu i bersonau sy'n meddiannu unrhyw fangre yng nghyffiniau'r tŷ, neu sydd ag ystad neu fuddiant ynddi; a
- (b) drwy wneud y gorchymyn rheoli interim cyn gynted ag y bo modd (ynghyd, pan fo'n gymwys, â pha bynnag fesurau eraill y bwriada'r ATLI eu cymryd) y bydd yr ATLI yn gallu cymryd camau priodol yn ddi-oed i atal y bygythiad neu leihau'r bygythiad yn sylweddol.

(4) Rhaid i'r tribiwnlys, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu'r partion, a phob person â buddiant y mae ei enw a'i gyfeiriad wedi eu hysbysu i'r tribiwnlys, o'r canlynol—

- (a) yr ymdrinnir â'r cais fel mater brys o dan y rheoliad hwn;
- (b) y rhesymau pam y mae'n ymddangos i'r tribiwnlys fod yr amgylchiadau eithriadol yn bodoli;
- (c) unrhyw ofyniad sydd i'w fodloni gan barti cyn y gwrandawriad; a
- (d) y dyddiad pan gynhelir y gwrandawriad llafar brys.

(5) Ni chaiff dyddiad y gwrandawriad fod yn llai na 4 diwrnod, nac yn fwy na 10 niwrnod, ar ôl y dyddiad yr anfonir yr hysbysiad o'r gwrandawriad llafar brys.

Reply by respondent

9.—(1) Where a respondent receives the notice mentioned in regulation 8(2), the respondent must by the date specified in the notice send to the tribunal a written reply acknowledging receipt of the copy documents sent in accordance with regulation 8(1) and provide the information required under regulation 8(2).

(2) Where the respondent fails to respond by the date specified in the notice mentioned in regulation 8(2) or fails to provide the information required under that paragraph, the tribunal may proceed with the matter in any way it considers to be reasonable in the circumstances of the case.

Urgent IMO authorisation applications

10.—(1) This regulation applies where the LHA requests a tribunal to deal with an IMO authorisation application as a matter of urgency.

(2) Where it appears to the tribunal, on the basis of information accompanying the application, that the exceptional circumstances mentioned in paragraph (3) exist, it must order that an oral hearing (an "urgent oral hearing") be held.

(3) The exceptional circumstances are that—

- (a) there is an immediate threat to the health and safety of the occupiers of the house or to persons occupying or having an estate or interest in any premises in the vicinity of the house; and
- (b) by making the interim management order as soon as possible (together where applicable with such other measures as the LHA intends to take) the LHA will be able to take immediate appropriate steps to stop or significantly reduce the threat.

(4) The tribunal must as soon as practicable notify the parties and each interested person whose name and address have been notified to it—

- (a) that the application is being dealt with as a matter of urgency under this regulation;
- (b) of the reasons why it appears to the tribunal that the exceptional circumstances exist;
- (c) of any requirement to be satisfied by a party before the hearing; and
- (d) of the date on which the urgent oral hearing will be held.

(5) The date of the hearing must be not less than 4 days, and not more than 10 days, after the date that notification of the urgent oral hearing is sent.

(6) Yn y gwrandawriad llafar brys, rhaid i'r tribiwnlys—

- (a) os bodlonir y tribiwnlys, ar ôl clywed tystiolaeth, fod yr amgylchiadau eithriadol yn bodoli, penderfynu'r cais; neu
- (b) os na fodlonir y tribiwnlys felly—
 - (i) gohirio'r gwrandawriad ar ôl ei gychwyn; a
 - (ii) rhoi pa bynnag gyfarwyddydau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(7) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel—

- (a) arfer y pŵer a roddir gan baragraff (2); a
- (b) penderfynu dyddiad y gwrandawriad llafar brys.

(8) Pan fo'r tribiwnlys yn gorchymyn cynnal gwrandawriad llafar brys o dan baragraff (2), nid yw'r darpariaethau hysbysu a gynhwysir yn y rheoliadau a ganlyn yn gymwys i'r cais—

- (a) rheoliad 23(5) (hysbysu ynghylch arolygiad); a
- (b) rheoliad 27(2) a (4) (hysbysu ynghylch gwrandawriad).

Ceisiadau o dan Ddeddf 2013 mewn perthynas ag effaith andwyol cartrefi symudol ar amwynder y safle

11.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan wneir cais gan berchennog safle am benderfyniad gan dribiwnlys o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 fod cartref symudol, o ystyried ei gyflwr, yn cael effaith andwyol ar amwynder y safle.

(2) Pan fo'r tribiwnlys, yn ystod gwrandawriad, yn ystyried bod y cartref symudol yn cael effaith niweidiol ar amwynder y safle, ond y byddai'r cartref symudol yn peidio â chael effaith andwyol o'r fath pe gwneid gwaith trwsio penodol i'r cartref symudol, rhaid iddo—

- (a) rhoi gwybod i berchennog y safle a'r meddiannydd pa waith trwsio y mae'r tribiwnlys yn ystyried y dylid ei wneud;
- (b) gwahodd meddiannydd y cartref symudol a pherchennog y safle i ddynodi, mewn perthynas â'r gwaith trwsio hwn—
 - (i) yr amser y byddai ei angen i'w wneud; a
 - (ii) y gost o'i wneud; ac
- (c) gwahodd meddiannydd y cartref symudol i ddynodi a fyddai'n fodlon gwneud y gwaith trwsio hwnnw ai peidio.

(6) At the urgent oral hearing the tribunal must—

- (a) if it is satisfied upon hearing evidence that the exceptional circumstances do exist, determine the application; or
- (b) if it is not so satisfied—
 - (i) adjourn the hearing; and
 - (ii) give such directions as it considers appropriate.

(7) A single qualified member of the panel may—

- (a) exercise the power conferred by paragraph (2); and
- (b) decide the date of the urgent oral hearing.

(8) Where the tribunal orders an urgent oral hearing under paragraph (2) the notice provisions contained in the following regulations do not apply to the application—

- (a) regulation 23(5) (notice for an inspection); and
- (b) regulation 27(2) and (4) (notice of hearing).

Applications under the 2013 Act relating to detrimental effect of mobile homes on the amenity of the site

11.—(1) This regulation applies where a site owner applies for a determination by a tribunal under paragraph 7(1)(a) of Chapter 2, or paragraph 40(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act that, having regard to its condition, a mobile home is having a detrimental effect on the amenity of the site.

(2) Where, in the course of a hearing, the tribunal considers that the mobile home is having a detrimental effect on the amenity of the site, but that if certain repairs to the mobile home were carried out, the mobile home would cease to have such a detrimental effect, it must—

- (a) inform the site owner and the occupier of the repairs which the tribunal considers should be carried out;
- (b) invite both the occupier of the mobile home and the site owner to indicate in relation to those repairs—
 - (i) the time needed to carry them out; and
 - (ii) the cost of carrying them out; and
- (c) invite the occupier of the mobile home to indicate whether or not the occupier would be willing to carry out those repairs.

(3) Rhaid i'r tribiwnlys, gan ystyried unrhyw ddyodiadau a roddir o dan baragraff (2)(b) ac (c), naill ai—

- (a) gwneud penderfyniad o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013; neu
- (b) pan fo paragraff 7(3) o Bennod 2, neu baragraff 40(3) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys, gwneud gorchymyn interim sy'n ei gwneud yn ofynnol bod meddiannydd y cartref symudol yn gwneud y cyfryw waith trwsio o fewn y cyfryw amser a ystyrir yn rhesymol gan y tribiwnlys.

(4) Pan fo'r tribiwnlys yn gwneud gorchymyn interim o dan baragraff (3)(b), rhaid iddo ohirio'r gwrandawriad ar ôl ei gychwyn a phennu'r dyddiad ar gyfer gwrandawriad newydd, na chaiff fod yn ddiweddarach na 7 niwrnod ar ôl y dyddiad a bennir yn y gorchymyn fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud y gwaith trwsio.

(5) Wrth bennu dyddiad ar gyfer gwrandawriad newydd o dan baragraff (4), rhaid i'r tribiwnlys—

- (a) rhoi i'r partïon ddim llai na 14 o ddiwrnodau o rybudd ysgrifenedig o ddyddiad y gwrandawriad; a
- (b) gwahodd perchennog y safle a'r meddiannydd i ddynodi, yn ddim hwyrach na 4 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad newydd, pa un a yw'r gwaith trwsio a ddisgrifir yn y gorchymyn (yn eu barn hwy) wedi ei gwblhau ai peidio.

(6) Yn y gwrandawriad newydd—

- (a) os yw'r tribiwnlys wedi ei hysbysu, gan feddiannydd y cartref symudol a hefyd gan berchennog y safle, fod y gwaith trwsio a orchynnwyd o dan baragraff (3)(b) wedi ei gwblhau, rhaid i'r tribiwnlys wrthod y cais;
- (b) os nad yw'r tribiwnlys wedi ei hysbysu felly, rhaid iddo wahodd unrhyw barti sy'n bresennol i gyflwyno unrhyw sylwadau pellach ynghylch maint y gwaith trwsio sy'n aros heb ei wneud a'r amser y byddai ei angen i'w wneud; ac
- (c) ar ôl ystyried unrhyw sylwadau o'r fath, rhaid i'r tribiwnlys naill ai gwneud gorchymyn interim pellach o dan baragraff (3)(b) o'r rheoliad hwn neu wneud penderfyniad o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013.

Cais gan berson am gael ei drin fel ceisydd neu ymatebydd

12.—(1) Caiff person (“y parti posibl”) wneud cais i'r tribiwnlys am gael ymuno fel parti i'r achos.

(3) The tribunal, having regard to any indications given under paragraph (2)(b) and (c) must either—

- (a) make a determination under paragraph 7(1)(a) of Chapter 2, or paragraph 40(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act; or
- (b) where paragraph 7(3) of Chapter 2, or paragraph 40(3) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule applies, make an interim order requiring the occupier of the mobile home to carry out such repairs within such time as the tribunal considers reasonable.

(4) Where the tribunal makes an interim order under paragraph (3)(b), it must adjourn the hearing and set the date of a new hearing, which must be no later than 7 days from the date stipulated in the order as the date by which the repairs must be carried out.

(5) When setting a new hearing date under paragraph (4), the tribunal must—

- (a) give the parties not less than 14 days' written notice of the hearing date; and
- (b) invite both the site owner and the occupier to indicate, no later than 4 days before the new hearing date, whether (in their opinion) the repairs described in the order have been completed.

(6) At the new hearing—

- (a) if the tribunal has received notification from both the occupier of the mobile home and the site owner that the repairs ordered under paragraph (3)(b) have been completed, the tribunal must dismiss the application;
- (b) if the tribunal has not received such notification it must invite any party who is present to make any further representations as to the extent of repairs left to be carried out and the time needed to carry them out; and
- (c) having considered any such representations, it must either make a further interim order under paragraph (3)(b) of this regulation or make a determination under paragraph 7(1)(a) of Chapter 2, or paragraph 40(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act.

Request by a person to be treated as an applicant or respondent

12.—(1) A person (“the potential party”) may make a request to the tribunal to be joined as a party to the proceedings.

(2) Yn achos unrhyw gais am gael ymuno o dan baragraff (1)—

- (a) caniateir ei wneud heb roi rhybudd;
- (b) rhaid iddo fod mewn ysgrifen;
- (c) rhaid iddo roi rhesymau dros wneud y cais am gael ymuno; a
- (d) rhaid iddo bennu pa un a yw'r parti posibl yn dymuno cael ei drin—
 - (i) fel ceisydd; neu
 - (ii) fel ymatebydd.

(3) Caiff tribiwnlys wrthod cais am gael ymuno o dan baragraff (1) pan na fodlonir y tribiwnlys fod y parti posibl yn berson â buddiant neu'n berson sydd â buddiant digonol yng nghanlyniad yr achos.

(4) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dod i'w benderfyniad naill ai i ganiatáu neu i wrthod cais am gael ymuno o dan baragraff (1), rhaid i'r tribiwnlys—

- (a) hysbysu'r parti posibl ynghylch y penderfyniad a'r rhesymau drosto; a
- (b) anfon copi o'r hysbysiad at y partïon a oedd eisoes wedi eu cynnwys yn yr achos.

(5) Rhaid trin unrhyw barti posibl, y caniateir ei gais am gael ymuno o dan baragraff (1), fel ceisydd neu ymatebydd at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(6) Yn y Rheoliadau hyn, rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at geisydd neu ymatebydd fel pe bai'n cynnwys person a drinnir felly o dan y rheoliad hwn, a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at barti fel pe bai'n cynnwys unrhyw berson o'r fath.

(7) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel ganiatáu neu wrthod cais am gael ymuno o dan baragraff (1).

Penderfynu ceisiadau ar y cyd

13.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo ceisiadau, sydd wedi eu gwneud ar wahân, ym marn y tribiwnlys—

- (a) yn achos ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf 2004—
 - (i) yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â'r un fangre; neu
 - (ii) wedi eu gwneud mewn cysylltiad â dwy neu ragor o fangreoedd sydd â'r un person yn rheoli pob un o'r mangreoedd hynny, a'r un ATLL naill ai'n geisydd neu'n ymatebydd mewn cysylltiad â phob un o'r mangreoedd hynny;
- (b) yn achos ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf 2013—

(2) Any request under paragraph (1)—

- (a) may be made without notice;
- (b) must be in writing;
- (c) must give reasons for the request; and
- (d) must specify whether the potential party wishes to be treated as—
 - (i) an applicant; or
 - (ii) a respondent.

(3) A tribunal may refuse a request under paragraph (1) where the tribunal is not satisfied that the potential party is an interested person or a person who has sufficient interest in the outcome of proceedings.

(4) As soon as practicable after reaching its decision whether to grant or refuse a request under paragraph (1), the tribunal must—

- (a) notify the potential party of the decision and the reasons for it; and
- (b) send a copy of the notification to the existing parties.

(5) Any potential party whose request under paragraph (1) is granted must be treated as an applicant or respondent for the purposes of these Regulations.

(6) In these Regulations any reference to an applicant or a respondent must be construed as including a person treated as such under this regulation, and any reference to a party must be construed as including any such person.

(7) A single qualified member of the panel may grant or refuse a request under paragraph (1).

Determining applications together

13.—(1) This regulation applies where separate applications have been made which, in the opinion of the tribunal—

- (a) in the case of applications made under the 2004 Act—
 - (i) involve related issues concerning the same premises; or
 - (ii) are made in respect of two or more premises in which the same person is the person having control of each of those premises and the same LHA is either the applicant or respondent in respect of each of those premises;
- (b) in the case of applications made under the 2013 Act—

- (i) yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â'r un safle gwarchoddedig; neu
 - (ii) wedi eu gwneud mewn cysylltiad â dau neu ragor o safleoedd gwarchoddedig sydd â'r un perchennog safle;
- (c) yn achos ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf 2014—
- (i) yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â'r un landlord;
 - (ii) yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â'r un annedd; neu
 - (iii) yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â'r un asiant sydd wedi ei drwyddedu o dan adran 9 neu adran 11 o Ddeddf 2014;
- (d) yn achos ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf 2015 yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â'r un asiant gosod.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, caiff y tribiwnlys orchymyn bod—

- (a) rhai neu bob un o'r ceisiadau hynny; neu
- (b) materion neu ystyriaethau penodol sy'n codi yn y ceisiadau hynny,

i gael eu penderfynu ar y cyd.

(3) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel arfer y pŵer a roddir gan baragraff (2).

Talu ffioedd

14. Pan nad yw ffi sy'n daladwy o dan Ran 3 o'r Rheoliadau hyn wedi ei thalu o fewn cyfnod o 14 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cafwyd y cais, bernir bod y cais wedi ei dynnu'n ôl oni fodlonir y tribiwnlys fod sail resymol dros beidio â gwneud hynny.

Cynrychiolwyr

15.—(1) Mae'r rheoliad hwn—

- (a) yn gymwys pan fo parti, person â buddiant, neu gynrychiolydd parti neu berson â buddiant, yn gwneud cais ysgrifenedig i'r tribiwnlys am gyflenwi gwybodaeth neu ddogfennau i gynrychiolydd parti neu berson â buddiant, ond
- (b) mae'n peidio â bod yn gymwys pan fo'r tribiwnlys yn cael hysbysiad ysgrifenedig bod y cynrychiolydd wedi peidio â chynrychioli'r parti neu'r person â buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i gais am gyflenwi gwybodaeth neu ddogfennau a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) gynnwys enw a chyfeiriad y cynrychiolydd.

- (i) involve related issues concerning the same protected site; or
 - (ii) are made in respect of two or more protected sites and the site owner of each of those sites is the same;
- (c) in the case of applications made under the 2014 Act—
- (i) involve related issues concerning the same landlord;
 - (ii) involve related issues concerning the same dwelling; or
 - (iii) involve related issues concerning the same agent licensed under section 9 or section 11 of the 2014 Act;
- (d) in the case of applications made under the 2015 Act involve related issues concerning the same letting agent.

(2) Where paragraph (1) applies, the tribunal may order that—

- (a) some or all of those applications; or
- (b) particular issues or matters raised in the applications,

are determined together.

(3) A single qualified member of the panel may exercise the power conferred by paragraph (2).

Payment of fees

14. Where a fee which is payable under Part 3 of these Regulations is not paid within a period of 14 days from the date on which the application is received, the application is deemed withdrawn unless the tribunal is satisfied that there are reasonable grounds not to do so.

Representatives

15.—(1) This regulation—

- (a) applies where a party, an interested person, or the representative of a party or an interested person, makes a request in writing to the tribunal for information or documents to be supplied to the representative of a party or interested person, but
- (b) ceases to apply when the tribunal receives written notification that the representative has ceased representing that party or interested person.

(2) A request mentioned in paragraph (1)(a) must contain the name and address of the representative.

(3) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, bodlonir unrhyw ddyletswydd sydd ar y tribiwnlys o dan y Rheoliadau hyn i gyflenwi unrhyw wybodaeth neu ddogfen i'r parti neu'r person â buddiant drwy anfon yr wybodaeth neu'r ddogfen at y cynrychiolydd, neu drwy roi'r wybodaeth neu'r ddogfen iddo.

Cyflenwi gwybodaeth a dogfennau i bersonau â buddiant

16.—(1) Pan hysbysir y tribiwnlys o enw a chyfeiriad person â buddiant, rhaid iddo sicrhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol y cyflenwir i'r person hwnnw—

- (a) copi o'r cais;
- (b) esboniad o'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am gael ymuno fel ceisydd neu ymatebydd; ac
- (c) unrhyw wybodaeth neu ddogfen arall y mae'r tribiwnlys yn ystyried ei bod yn briodol.

(2) Caiff y tribiwnlys sicrhau y cyflenwir yr wybodaeth neu'r dogfennau o dan baragraff (1) drwy—

- (a) cyflenwi'r wybodaeth neu'r dogfennau i'r person â buddiant;
- (b) cyflenwi'r wybodaeth neu'r dogfennau i gynrychiolydd y person â buddiant; neu
- (c) ei gwneud yn ofynnol, drwy orchymyn a wneir o dan reoliad 22, fod parti yn cyflenwi'r wybodaeth neu'r dogfennau i'r person â buddiant, neu i gynrychiolydd y person â buddiant.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4)—

- (a) os cyflenwir gwybodaeth a dogfennau i berson â buddiant yn unol â pharagraff (1); a
- (b) os caiff y tribiwnlys gais gan y person â buddiant hwnnw, i barhau i gyflenwi gwybodaeth a dogfennau i'r person â buddiant,

rhaid i'r tribiwnlys barhau i sicrhau y cyflenwir i'r person â buddiant hwnnw unrhyw wybodaeth neu ddogfen ynglŷn â'r mater y mae'r achos yn ymwneud ag ef a ystyrir yn briodol gan y tribiwnlys.

(4) Bydd y ddyletswydd ar y tribiwnlys o dan baragraff (3) yn dod i ben os yw'r person â buddiant yn ymuno fel parti yn yr achos o dan reoliad 12, neu os yw'r person â buddiant yn rhoi hysbysiad nad yw bellach yn dymuno cael yr wybodaeth neu'r dogfennau.

Cyflenwi dogfennau gan dribiwnlys

17.—(1) Cyn penderfynu ynghylch cais, rhaid i'r tribiwnlys gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cyflenwir i bob un o'r partion—

(3) Where this regulation applies, any duty of the tribunal under these Regulations to supply any information or document to the party or interested person is satisfied by sending or giving it to the representative.

Supply of information and documents to interested persons

16.—(1) Where the tribunal is notified of the name and address of an interested person, it must ensure that as soon as is practicable that person is supplied with—

- (a) a copy of the application;
- (b) an explanation of the procedure for applying to be joined as an applicant or respondent; and
- (c) any other information or document which the tribunal considers appropriate.

(2) The tribunal may ensure the supply of information or documents under paragraph (1) by—

- (a) supplying the interested person with the information or documents;
- (b) supplying the information or documents to a representative of the interested person; or
- (c) requiring a party by an order made under regulation 22 to supply the information or documents to the interested person or the interested person's representative.

(3) Subject to paragraph (4), where—

- (a) information and documents are supplied to an interested person in accordance with paragraph (1); and
- (b) the tribunal receives a request from that interested person to continue to supply the interested person with information and documents,

the tribunal must continue to ensure the supply to that interested person of any information or document concerning the matter to which the proceedings relate which the tribunal considers appropriate.

(4) The tribunal's duty under paragraph (3) ceases upon the interested person being joined as a party under regulation 12 or upon notification that the interested person no longer wishes to receive the information or documents.

Supply of documents by tribunal

17.—(1) Before determining an application, the tribunal must take all reasonable steps to ensure that each of the parties is supplied with—

- (a) copi o unrhyw ddogfen sy'n berthnasol i'r achos (neu ddigon o ddarnau o'r ddogfen, neu ddigon o fanylion amdani) a gafwyd gan unrhyw barti arall neu berson â buddiant (ac eithrio dogfen sydd eisoes ym meddiant y parti hwnnw, neu ddogfen y cyflenwyd copi ohoni iddo'n flaenorol); a
- (b) copi o unrhyw ddogfen sy'n cynnwys canlyniadau unrhyw ymholiadau perthnasol a wnaethpwyd gan y tribiwnlys, neu ar ei gyfer, at ddibenion yr achos.

(2) Mewn gwrandawriad, os nad yw parti eisoes wedi cael dogfen berthnasol neu gopi ohoni, neu ddigon o ddarnau o ddogfen berthnasol neu ddigon o fanylion amdani, yna oni bai—

- (a) bod y person hwnnw yn cydsynio i'r gwrandawriad barhau; neu
- (b) bod y tribiwnlys yn ystyried bod gan y person hwnnw gyfle digonol i ymdrin â'r materion y mae'r ddogfen yn ymwneud â hwy heb ohirio'r gwrandawriad ar ôl ei gychwyn,

rhaid i'r tribiwnlys ohirio'r gwrandawriad ar ôl ei gychwyn am gyfnod y mae'n ystyried fydd yn rhoi cyfle digonol i'r person hwnnw ymdrin â'r materion hynny.

Cyflenwi gwybodaeth a dogfennau gan bartïon

18.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol bod parti'n cyflenwi i'r tribiwnlys unrhyw wybodaeth neu ddogfen y mae o fewn pŵer y parti hwnnw i'w cyflenwi, ac a bennir, neu sydd o ddisgrifiad a bennir, yn y gorchymyn.

(2) Caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol bod parti'n cyflenwi i barti arall, neu i berson â buddiant, gopiâu o unrhyw ddogfennau a gyflenwyd, neu sydd i'w cyflenwi, i'r tribiwnlys o dan baragraff (1).

(3) Rhaid i barti sy'n ddarostyngedig i orchymyn a wnaed o dan baragraff (1) neu (2) gyflenwi'r cyfryw wybodaeth, dogfennau neu gopiâu erbyn pa bynnag amser a bennir yn y gorchymyn neu a benderfynir yn unol â'r gorchymyn.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn bresennol mewn gwrandawriad llafar, i roi tystiolaeth ac i ddangos unrhyw ddogfennau a bennir yn y gorchymyn, neu sydd o ddisgrifiad a bennir yn y gorchymyn, ac sydd o fewn pŵer y person hwnnw i'w dangos.

(5) Nid yw paragraffau (1) a (4) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddogfen na ellid gorfodi person i'w dangos mewn treial o achos mewn llys barn yng Nghymru a Lloegr.

- (a) a copy of any document relevant to the proceedings (or sufficient extracts from or particulars of the document) which has been received from any other party or from an interested person (other than a document already in that party's possession or one of which that party has previously been supplied with a copy); and
- (b) a copy of any document which embodies the results of any relevant enquiries made by or for the tribunal for the purposes of the proceedings.

(2) At a hearing, if a party has not previously received a relevant document or a copy of, or sufficient extracts from or particulars of, a relevant document, then unless—

- (a) that person consents to the continuation of the hearing; or
- (b) the tribunal considers that that person has a sufficient opportunity to deal with the matters to which the document relates without an adjournment of the hearing,

the tribunal must adjourn the hearing for a period which it considers will give that person sufficient opportunity to deal with those matters.

Supply of information and documents by parties

18.—(1) Subject to paragraph (5), the tribunal may make an order requiring a party to supply to the tribunal any information or document which it is in the power of that party to supply and which is specified, or is of a description specified, in the order.

(2) The tribunal may make an order requiring a party to supply to another party, or to an interested person, copies of any documents supplied or to be supplied to the tribunal under paragraph (1).

(3) A party who is subject to an order made under paragraph (1) or (2) must supply such information, documents or copies by such time as may be specified in, or determined in accordance with, the order.

(4) Subject to paragraph (5) the tribunal may make an order requiring any person to attend an oral hearing to give evidence and produce any documents specified, or of a description specified, in the order which it is in the power of that person to produce.

(5) Paragraphs (1) and (4) do not apply in relation to any document which a person could not be compelled to produce on the trial of an action in a court of law in England and Wales.

(6) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel wneud gorchymyn o dan baragraff (1), (2) neu (4) sydd—

- (a) yn rhagarweiniol i wrandawriad llafar; neu
- (b) yn rhagarweiniol i benderfyniad, neu'n gysylltiedig â phenderfyniad.

Methiant i gydymffurfio â gorchymyn i gyflenwi gwybodaeth a dogfennau

19. Pan fo parti wedi methu â chydymffurfio â gorchymyn a wnaed o dan reoliad 18(1), (2) neu (4), caiff y tribiwnlys—

- (a) dod i ba bynnag gasgliadau y mae'r tribiwnlys yn meddwl sy'n briodol; neu
- (b) gwneud gorchymyn sy'n gwrthod neu'n caniatáu'r cais cyfan neu ran ohono.

Penderfynu heb wrandawriad

20.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (7) caiff y tribiwnlys benderfynu cais heb wrandawriad llafar os bydd wedi hysbysu'r partïon mewn ysgrifen, ddim llai na 14 o ddiwrnodau ymlaen llaw, o'i fwriad i wneud hynny.

(2) Ar unrhyw adeg cyn penderfynu'r cais—

- (a) caiff y ceisydd neu'r ymatebydd ofyn am wrandawriad llafar; neu
- (b) caiff y tribiwnlys hysbysu'r partïon ei fod yn bwriadu cynnal gwrandawriad llafar.

(3) Pan wneir cais am wrandawriad llafar neu pan roddir hysbysiad o dan baragraff (2), rhaid i'r tribiwnlys roi hysbysiad ynghylch gwrandawriad yn unol â rheoliad 27.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caniateir gwneud penderfyniad heb wrandawriad llafar yn absenoldeb unrhyw sylwadau gan yr ymatebydd.

(5) Mewn cysylltiad â chais a wneir o dan baragraffau 5, 6, 7 neu 14 o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39, 40 neu 44 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013, ni chaniateir gwneud penderfyniad heb wrandawriad llafar ac eithrio—

- (a) pan fo'r ymatebydd wedi hysbysu'r tribiwnlys nad yw'r ymatebydd yn gwrthwynebu'r cais; neu
- (b) pan fo'r partïon i gyd wedi hysbysu'r tribiwnlys eu bod yn cydsynio i'r cais gael ei benderfynu heb wrandawriad.

(6) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel benderfynu pa un a yw gwrandawriad llafar yn briodol ai peidio ar gyfer penderfynu cais.

(7) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gais y mae rheoliad 10 (ceisiadau brys am awdurdodiad GRHI) yn gymwys iddo.

(6) A single qualified member of the panel may make an order under paragraph (1), (2) or (4) which is—

- (a) preliminary to an oral hearing; or
- (b) preliminary or incidental to a determination.

Failure to comply with an order to supply information and documents

19. Where a party has failed to comply with an order made under regulation 18(1), (2) or (4) the tribunal may—

- (a) draw such inferences as it thinks fit; or
- (b) make an order dismissing or allowing the whole or part of the application.

Determination without a hearing

20.—(1) Subject to paragraphs (2) and (7) the tribunal may determine an application without an oral hearing if it has given the parties not less than 14 days' notice in writing of its intention to do so.

(2) At any time before the application is determined—

- (a) the applicant or the respondent may request an oral hearing; or
- (b) the tribunal may give notice to the parties that it intends to hold an oral hearing.

(3) Where a request is made or a notice given under paragraph (2) the tribunal must give notice of a hearing in accordance with regulation 27.

(4) Subject to paragraph (5), a determination without an oral hearing may be made in the absence of any representations by the respondent.

(5) In respect of an application made under paragraphs 5, 6, 7 or 14 of Chapter 2, or paragraphs 38, 39, 40 or 44 of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act, a determination without an oral hearing may only be made—

- (a) where the respondent has notified the tribunal that the respondent does not oppose the application; or
- (b) all parties have notified the tribunal that they consent to the application being determined without a hearing.

(6) A single qualified member of the panel may decide whether an oral hearing is or is not appropriate to determine an application.

(7) This regulation does not apply to an application to which regulation 10 (urgent IMO authorisation applications) applies.

Gorchymynion interim

21.—(1) Caiff tribiwnlys wneud gorchymyn ar sail interim (“gorchymyn interim”) sydd—

- (a) yn atal dros dro, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, effaith unrhyw benderfyniad, hysbysiad, gorchymyn neu drwydded sy’n destun achos ger ei fron; neu
- (b) yn caniatáu am y tro unrhyw rwymedi y byddai gan y tribiwnlys bŵer i’w ganiatáu yn ei benderfyniad terfynol.

(2) Pan fo’r tribiwnlys yn gwneud gorchymyn interim heb yn gyntaf roi cyfle i’r partïon gyflwyno sylwadau ynghylch gwneud y gorchymyn, caiff parti ofyn am i’r gorchymyn interim gael ei amrywio neu ei roi o’r neilltu.

(3) Caniateir gwneud unrhyw gais o’r fath am amrywio neu neilltuo—

- (a) ar lafar mewn gwrandawriad;
- (b) mewn ysgrifen; neu
- (c) drwy ba ddull bynnag arall a ganiateir gan y tribiwnlys.

(4) Rhaid i’r tribiwnlys, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn interim, ddarparu i bob un o’r partïon hysbysiad yn nodi’r gorchymyn, a rhaid i’r hysbysiad, ac eithrio yn achos gorchymyn a wneir gyda chydysyniad pob un o’r partïon, roi’r rhesymau dros y penderfyniad i wneud y gorchymyn.

(5) Nid yw’r rheoliad hwn yn gymwys i gais y mae rheoliad 10 (ceisiadau brys am awdurdodiad GRhI) yn gymwys iddo.

Cyfarwyddydau

22.—(1) Caiff parti ofyn i’r tribiwnlys roi cyfarwyddyd drwy wneud gorchymyn o dan ei bŵer cyffredinol yn adran 230(2) o Ddeddf 2004.

(2) Caiff parti y cyfeirir cyfarwyddyd gweithdrefnol ato ofyn i’r tribiwnlys amrywio’r cyfarwyddyd neu ei roi o’r neilltu.

(3) Caniateir gwneud cais o’r fath y cyfeirir ato ym mharagraff (1) neu (2)—

- (a) ar lafar mewn cynhadledd rheoli achos neu wrandawriad;
- (b) mewn ysgrifen; neu
- (c) drwy ba ddull bynnag arall a ganiateir gan y tribiwnlys.

(4) Rhaid i barti sy’n gwneud cais am gyfarwyddyd o dan baragraff (1) bennu pa gyfarwyddydau gweithdrefnol a geisir a’r rhesymau dros eu ceisio.

Interim orders

21.—(1) A tribunal may make an order on an interim basis (an “interim order”)—

- (a) suspending, in whole or in part, the effect of any decision, notice, order or licence which is the subject matter of proceedings before it; or
- (b) for the time being granting any remedy which it would have had power to grant in its final decision.

(2) Where the tribunal makes an interim order without first giving the parties the opportunity to make representations with regard to making it, a party may request that the interim order be varied or set aside.

(3) Any such request may be made—

- (a) orally at a hearing;
- (b) in writing; or
- (c) by such other means as the tribunal may permit.

(4) The tribunal must provide to each party as soon as reasonably practicable after making an interim order a notice setting out the order and, except in the case of an order made with the consent of all parties, giving reasons for the decision to make the order.

(5) This regulation does not apply to an application to which regulation 10 (urgent IMO authorisation applications) applies.

Directions

22.—(1) A party may request the tribunal to give a direction by order under its general power in section 230(2) of the 2004 Act.

(2) A party to whom a procedural direction is addressed may request the tribunal to vary it or set it aside.

(3) A request referred to in paragraph (1) or (2) may be made—

- (a) orally at a case management conference or hearing;
- (b) in writing; or
- (c) by such other means as the tribunal may permit.

(4) A party making a request under paragraph (1) must specify the procedural directions which are sought and the reasons for seeking them.

(5) Caiff aelod cymwysedig unigol o'r panel roi cyfarwyddyd gweithdrefnol ynglŷn ag unrhyw fater sydd—

- (a) yn rhagarweiniol i wrandawriad llafar; neu
- (b) yn rhagarweiniol i benderfyniad, neu'n gysylltiedig â phenderfyniad.

(6) Ym mharagraffau (2), (4) a (5) ystyr "cyfarwyddyd gweithdrefnol" ("*procedural direction*") yw unrhyw gyfarwyddyd ac eithrio cyfarwyddyd a nodir ym mharagraffau (a) i (e) o adran 230(5) neu baragraffau (a) i (d) o adran 230(5A) o Ddeddf 2004.

Arolygu mangreodd a'u cyffiniau

23.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) caiff y tribiwnlys arolygu—

- (a) y fangre;
- (b) unrhyw fangre arall y gallai ei harolygu gynorthwyo'r tribiwnlys i benderfynu'r cais;
- (c) yr ardal o amgylch y fangre.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r tribiwnlys roi cyfle i'r partïon fod yn bresennol mewn arolygiad.

(3) Mae cynnal arolygiad, a bod yn bresennol mewn arolygiad, yn amodol ar sicrhau unrhyw gydsyniad sy'n angenrheidiol.

(4) Pan gynhelir gwrandawriad llafar, caniateir cynnal arolygiad cyn, yn ystod, neu ar ôl y gwrandawriad.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), rhaid i'r tribiwnlys roi i'r partïon ddim llai na 14 o ddiwrnodau o rybudd o ddyddiad, amser a lleoliad yr arolygiad.

(6) Caniateir hepgor neu liniaru'r gofyniad i roi rhybudd ym mharagraff (5) os bodlonir y tribiwnlys fod y partïon wedi cael rhybudd digonol.

(7) Pan gynhelir arolygiad ar ôl diwedd gwrandawriad llafar, caiff y tribiwnlys ailagor y gwrandawriad ar sail unrhyw fater sy'n codi o'r arolygiad, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol i'r partïon ynglŷn â dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad a ailagorir.

(8) Pan fo cais i gael ei benderfynu gan aelod cymwysedig unigol o'r panel, caniateir i'r aelod hwnnw arfer swyddogaethau'r tribiwnlys o dan y rheoliad hwn.

Tystiolaeth arbenigol

24.—(1) Yn y rheoliad hwn, ystyr "arbenigwr" ("*expert*") yw arbenigwr annibynnol nad yw'n gyflogai i unrhyw un o'r partïon.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff parti roi tystiolaeth arbenigol, ac wrth wneud hynny rhaid iddo—

(5) A single qualified member of the panel may give a procedural direction as to any matter which is—

- (a) preliminary to an oral hearing; or
- (b) preliminary or incidental to a determination.

(6) In paragraphs (2), (4) and (5) "procedural direction" ("*cyfarwyddyd gweithdrefnol*") means any direction other than a direction set out in paragraphs (a) to (e) of section 230(5) or paragraphs (a) to (d) of section 230(5A) of the 2004 Act.

Inspection of premises and neighbourhood

23.—(1) Subject to paragraph (3) the tribunal may inspect—

- (a) the premises;
- (b) any other premises inspection of which may assist the tribunal in determining the application;
- (c) the locality of the premises.

(2) Subject to paragraph (3), the tribunal must give the parties an opportunity to attend an inspection.

(3) The making of and attendance at an inspection is subject to any necessary consent being obtained.

(4) Where there is an oral hearing, an inspection may be carried out before, during, or after the hearing.

(5) Subject to paragraph (6), the tribunal must give the parties not less than 14 days' notice of the date, time and place of the inspection.

(6) The requirement for notice in paragraph (5) may be dispensed with or relaxed if the tribunal is satisfied that the parties have received sufficient notice.

(7) Where an inspection is made after the close of an oral hearing, the tribunal may reopen the hearing on account of any matter arising from the inspection, after giving reasonable notice of the date, time and place of the reopened hearing to the parties.

(8) Where an application is to be determined by a single qualified member of the panel, the functions of the tribunal under this regulation may be exercised by that member.

Expert evidence

24.—(1) In this regulation "expert" ("*arbenigwr*") means an independent expert who is not an employee of a party.

(2) Subject to paragraph (4) a party may adduce expert evidence, and in doing so must—

- (a) darparu i'r tribiwnlys grynodeb ysgrifenedig o'r dystiolaeth; a
- (b) yn ddarostyngedig i baragraff (5), cyflenwi copi o'r crynodeb ysgrifenedig hwnnw i bob parti arall o leiaf 7 niwrnod cyn—
 - (i) dyddiad y gwrandawriad llafar perthnasol y rhodddwyd hysbysiad ohono mewn perthynas â'r cais o dan reoliad 27; neu
 - (ii) y dyddiad a hysbyswyd o dan reoliad 20 fel y dyddiad pan benderfynir y cais heb wrandawriad llafar.

(6) The tribunal may not dismiss the whole or part of the application under paragraph (2) without first giving the applicant an opportunity to make representations in relation to the proposed dismissal.

(7) If the application, or part of it, is dismissed under paragraph (2), the applicant may apply for the application, or part of it, to be reinstated.

Irregularities

42. Any irregularity resulting from failure by a party to comply with any provision of these Regulations or of any direction of the tribunal before the tribunal has determined the application does not of itself render the proceedings void.

Llofnodi dogfennau

43. Pan fo'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod dogfen yn cael ei llofnodi, bodlonir y gofyniad hwnnw—

- (a) os yw'r llofnod naill ai wedi ei ysgrifennu neu wedi ei gynhyrchu gan gyfrifiadur neu drwy ddull mecanyddol arall; a
- (b) bod enw'r llofnodwr yn ymddangos o dan y llofnod mewn modd sy'n galluogi adnabod y llofnodwr.

RHAN 3

Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl

Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 1985

44. Yn ddarostyngedig i reoliad 51(2), mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 1985—

- (a) adran 269(1) (gorchmynion dymchwel);
- (b) adran 318(1) (pŵer tribiwnlys i awdurdodi cyflawni gwaith ar fangre nad yw'n ffit neu waith ar gyfer gwella).

Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

45.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 51(2), mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2004—

- (i) adran 22(9) (gwrthod cymeradwyo defnydd o fangre sy'n destun gorchymyn gwahardd);
- (ii) adran 62(7) (trwyddedu HMO: gwrthod caniatáu hysbysiad esemptio dros dro);
- (iii) adran 86(7) (trwyddedu detholus: gwrthod caniatáu hysbysiad esemptio dros dro);
- (iv) adran 126(4) (effaith gorchmynion rheoli: dodrefn);
- (v) adran 138 (digollediad sy'n daladwy i drydydd partion);
- (vi) paragraff 10 o Atodlen 1 (hysbysiad gwella);
- (vii) paragraff 13 o Atodlen 1 (penderfyniad ATLL i amrywio, neu wrthod dirymu neu amrywio, hysbysiad gwella);
- (viii) paragraff 7 o Atodlen 2 (gorchymyn gwahardd);
- (ix) paragraff 9 o Atodlen 2 (penderfyniad ATLL i amrywio, neu wrthod dirymu neu amrywio, gorchymyn gwahardd);

Signature of documents

43. Where these Regulations require a document to be signed, that requirement is satisfied—

- (a) if the signature is either written or produced by computer or other mechanical means; and
- (b) the name of the signatory appears beneath the signature in such a way that the signatory may be identified.

PART 3

Residential Property Tribunal Fees

Fees for applications made under the 1985 Act

44. Subject to regulation 51(2), a fee of £155 is payable for an application to a tribunal under the following provisions of the 1985 Act—

- (a) section 269(1) (demolition orders);
- (b) section 318(1) (power of tribunal to authorise execution of works on unfit premises or for improvement).

Fees for applications made under the 2004 Act

45.—(1) Subject to regulation 51(2), a fee of £155 is payable for an application to a tribunal under the following provisions of the 2004 Act—

- (i) section 22(9) (refusal to approve use of premises subject to a prohibition order);
- (ii) section 62(7) (HMO licensing: refusal to grant temporary exemption notice);
- (iii) section 86(7) (selective licensing: refusal to grant temporary exemption notice);
- (iv) section 126(4) (effect of management orders: furniture);
- (v) section 138 (compensation payable to third parties);
- (vi) paragraph 10 of Schedule 1 (improvement notice);
- (vii) paragraph 13 of Schedule 1 (LHA's decision to vary, or to refuse to revoke or vary, an improvement notice);
- (viii) paragraph 7 of Schedule 2 (prohibition order);
- (ix) paragraph 9 of Schedule 2 (LHA's decision to vary, or to refuse to revoke or vary, a prohibition order);

- (x) paragraff 11 o Atodlen 3 (hysbysiad gwella: hawliad am adennill treuliau);
- (xi) paragraff 31 o Atodlen 5 (rhoi neu wrthod trwydded);
- (xii) paragraff 32 o Atodlen 5 (trwyddedu HMO: penderfyniad i amrywio neu ddirymu, neu wrthod amrywio neu ddirymu, trwydded);
- (xiii) paragraff 28 o Atodlen 6 (penderfyniad ATLI i amrywio neu ddirymu, neu wrthod amrywio neu ddirymu, gorchymyn rheoli);
- (xiv) paragraff 32 o Atodlen 6 (gorchymyn rheoli: digolledu trydydd parti);
- (xv) paragraff 26(1)(a) a (b) o Atodlen 7 (GRhAG terfynol);
- (xvi) paragraff 30 o Atodlen 7 (penderfyniad ATLI i amrywio neu ddirymu, neu wrthod amrywio neu ddirymu, GRhAG interim neu derfynol);
- (xvii) paragraff 34(2) o Atodlen 7 (GRhAG: digolledu trydydd parti).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) a rheoliad 51(2), mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 (gorchymyn rheoli interim a therfynol).

(3) Nid oes ffi yn daladwy pan wneir cais o dan is-baragraff (1)(b) o baragraff 24 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 ar y seiliau a nodir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwnnw.

Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2013

46.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) a rheoliad 51(2), mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan reoliad 10 (hawl i apelio i dribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniad y perchennog) a rheoliad 17 (hawl i apelio i dribiwnlys ynghylch adneuad) o'r Rheoliadau Rheolau Safle.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) a rheoliad 51(2), mae ffi yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2013—

- (a) adran 7(4)(b) (trwydded safle: gwrthod dyroddi);
- (b) adran 12(2) (amodau trwydded safle: apêl);
- (c) adran 14(1) (amrywio amodau trwydded safle: apêl);
- (d) adran 17(2) (hysbysiad cydymffurfio: apêl);
- (e) adran 21(9) (camau brys: apêl);
- (f) adran 22(7) (hawlio treuliau: apêl);
- (g) adran 28(2) (cais gan awdurdod lleol am ddirymu trwydded safle);

- (x) paragraph 11 of Schedule 3 (improvement notice: demand for recovery of expenses);
- (xi) paragraph 31 of Schedule 5 (grant or refusal of licence);
- (xii) paragraph 32 of Schedule 5 (HMO licensing: decision to vary or revoke, or to refuse to vary or revoke licence);
- (xiii) paragraph 28 of Schedule 6 (LHA's decision to vary or revoke, or to refuse to vary or revoke, a management order);
- (xiv) paragraph 32 of Schedule 6 (management order: third party compensation);
- (xv) paragraph 26(1)(a) and (b) of Schedule 7 (final EDMO);
- (xvi) paragraph 30 of Schedule 7 (LHA's decision to vary or revoke, or to refuse to vary or revoke, an interim or final EDMO);
- (xvii) paragraph 34(2) of Schedule 7 (EDMO: third party compensation).

(2) Subject to paragraph (3) and regulation 51(2), a fee of £155 is payable for an application to a tribunal under paragraph 24 of Schedule 6 to the 2004 Act (interim and final management order).

(3) No fee is payable where an application under sub-paragraph (1)(b) of paragraph 24 of Schedule 6 to the 2004 Act is made on the grounds set out in sub-paragraph (3) of that paragraph.

Fees for applications made under the 2013 Act

46.—(1) Subject to paragraph (5) and regulation 51(2) a fee of £155 is payable for an application to a tribunal under regulation 10 (right to appeal to tribunal in relation to the owner's decision) and regulation 17 (right to appeal to tribunal in relation to a deposit) of the Site Rules Regulations.

(2) Subject to paragraph (5) and regulation 51(2), a fee is payable for an application to a tribunal under the following provisions of the 2013 Act—

- (a) section 7(4)(b) (site licence: refusal to issue);
- (b) section 12(2) (conditions of site licence: appeal);
- (c) section 14(1) (variation of conditions of site licence: appeal);
- (d) section 17(2) (compliance notice: appeal);
- (e) section 21(9) (emergency action: appeal);
- (f) section 22(7) (demand for expenses: appeal);
- (g) section 28(2) (local authority application to revoke site licence);

- (h) adran 29(6)(b) (person addas a phriodol);
- (i) adran 30(5) (rheolwr interim);
- (j) adran 33(4) (gorchymyn ad-dalu);
- (k) adran 49(5) (datganiad ysgrifenedig);
- (l) adran 50(2) neu (3) (telerau ymhlyg/datganedig mewn cytundeb safle);
- (m) adran 54 (awdurdodaeth tribiwnlys neu'r llys);
- (n) paragraffau 5, 6 neu 7 o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39 neu 40(1) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 (terfynu);
- (o) paragraffau 10 neu 13 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 (gwerthu neu roi cartref symudol yn anrheg);
- (p) paragraffau 14 o Bennod 2, neu 44 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 (ail-leoli cartref symudol); a
- (q) paragraff 42(8) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 2 (aseinio cytundeb).

(3) Y ffi sy'n daladwy am bob cais y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yw—

- (a) pan fo'r cais yn cynnwys un cyfeiriad, £155;
- (b) pan fo'r cais yn cynnwys dau gyfeiriad, £205;
- (c) pan fo'r cais yn cynnwys tri neu bedwar cyfeiriad, £410;
- (d) pan fo'r cais yn cynnwys pum cyfeiriad neu ragor, £515.

(4) At ddibenion paragraff (3), nifer y cyfeiriadau sy'n gynnwysedig mewn cais yw—

- (a) yn achos cais a wneir mewn cysylltiad ag un llain neu gartref symudol, nifer y darpariaethau yn Neddf 2013 y mae'r cais hwnnw'n ymwneud â hwy; a
- (b) yn achos cais a wneir mewn cysylltiad â mwy nag un llain neu gartref symudol, nifer y leiniau neu'r cartrefi symudol y mae'r cais yn ymwneud â hwy.

(5) Nid oes ffi yn daladwy i dribiwnlys mewn perthynas â chais a wnaed o dan Ddeddf 2013 ac sydd wedi ei drosglwyddo o lys i dribiwnlys.

Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2014

47. Yn ddarostyngedig i reoliad 51(2) mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2014—

- (a) adran 17(4) (dirymu cofrestriad);
- (b) adran 27(1) (apelau trwyddedu);
- (c) adran 30 (gorchmynion atal rhent);

- (h) section 29(6)(b) (fit and proper person);
- (i) section 30(5) (interim manager);
- (j) section 33(4) (repayment order);
- (k) section 49(5) (written statement);
- (l) section 50(2) or (3) (implied/express terms in site agreement);
- (m) section 54 (jurisdiction of a tribunal or the court);
- (n) paragraphs 5, 6 or 7 of Chapter 2, or paragraphs 38, 39 or 40(1) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 (termination);
- (o) paragraphs 10 or 13 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 2 (sale or gift of a mobile home);
- (p) paragraphs 14 of Chapter 2, or 44 of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 (re-siting of mobile home); and
- (q) paragraph 42(8) of Chapter 4 of Part 1 of Schedule 2 (assignment of agreement).

(3) The fee payable for each application referred to in paragraph (2) is—

- (a) where the application contains one reference, £155;
- (b) where the application contains two references, £205;
- (c) where the application contains three or four references, £410;
- (d) where the application contains five or more references, £515.

(4) For the purpose of paragraph (3), the number of references contained in an application is—

- (a) in the case of an application made in respect of one pitch or mobile home, the number of provisions of the 2013 Act to which that application relates; and
- (b) in the case of an application made in respect of more than one pitch or mobile home, the number of pitches or mobile homes to which the application relates.

(5) No fee is payable to a tribunal in relation to an application made under the 2013 Act that has been transferred from a court to a tribunal.

Fees for applications made under the 2014 Act

47. Subject to regulation 51(2) a fee of £155 is payable for an application to a tribunal under the following provisions of the 2014 Act—

- (a) section 17(4) (revocation of registration);
- (b) section 27(1) (licensing appeals);
- (c) section 30 (rent stopping orders);

(d) adran 31 (dirymu gorchmynion atal rhent);

(e) adran 32 (gorchmynion ad-dalu rhent).

(d) section 31 (revocation of rent stopping orders);

(e) section 32 (rent repayment orders).

Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2015

48. Yn ddarostyngedig i reoliad 51(2) mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan baragraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 2015.

Talu ffioedd

49. Rhaid anfon unrhyw ffi sy'n daladwy o dan reoliad 44, 45, 46, 47 neu 48 gyda'r cais, a rhaid ei thalu gyda sic e a wnaed yn daladwy i Weinidogion Cymru, neu gydag archeb bost a lanwyd er budd Gweinidogion Cymru.

Atebolrwydd i dalu ffi a hepgor ffioedd

50.—(1) Mae'r ceisydd yn atebol i dalu unrhyw ffi sy'n daladwy o dan reoliad 44, 45, 46, 47 neu 48.

(2) Nid oes ffi yn daladwy o dan reoliad 44, 45, 46, 47 na 48 pan fo'r ceisydd neu bartner y person hwnnw, ar y dyddiad y gwneir y cais, yn cael—

- (a) y naill neu'r llall o'r budd-daliadau a ganlyn o dan Ran 7 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992—
 - (i) cymhorthdal incwm; neu
 - (ii) budd-dal tai;
- (b) lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm o fewn yr ystyr a roddir i "income-based jobseeker's allowance" yn adran 1 o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995;
- (c) credyd treth gwaith o dan Ran 1 o Ddeddf Credydau Treth 2002 y mae paragraff (3) yn gymwys iddo;
- (d) credyd gwarant o dan Ddeddf Credyd Pensiynau'r Wladwriaeth 2002;
- (e) lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm sy'n daladwy o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2007;
- (f) taliadau annibyniaeth bersonol sy'n daladwy o dan Ran 4 o Ddeddf Diwygio Lles 2012; neu
- (g) credyd cynhwysol.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) naill ai—
 - (i) pan fo elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol (neu'r ddau) yn y credyd treth gwaith y mae'r person, neu bartner y person, yn ei gael; neu

Fees for applications made under the 2015 Act

48. Subject to regulation 51(2) a fee of £155 is payable for an application to a tribunal under paragraph 5 of Schedule 9 to the 2015 Act.

Payment of fees

49. Any fee payable under regulation 44, 45, 46, 47 or 48 must accompany the application and must be paid by a cheque made payable to, or postal order drawn in favour of, the Welsh Ministers.

Liability to pay fee and waiver of fees

50.—(1) The applicant is liable to pay any fee payable under regulation 44, 45, 46, 47 or 48.

(2) No fee is payable under regulation 44, 45, 46, 47 or 48 where, on the date that the application is made, the applicant or that person's partner is in receipt of—

- (a) either of the following benefits under Part 7 of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992—
 - (i) income support; or
 - (ii) housing benefit;
- (b) an income-based jobseeker's allowance within the meaning of section 1 of the Jobseekers Act 1995;
- (c) a working tax credit under Part 1 of the Tax Credits Act 2002 to which paragraph (3) applies;
- (d) a guarantee credit under the State Pensions Credit Act 2002;
- (e) an income-related employment and support allowance payable under Part 1 of the Welfare Reform Act 2007;
- (f) personal independent payments payable under Part 4 of the Welfare Reform Act 2012; or
- (g) universal credit.

(3) This paragraph applies where—

- (a) either—
 - (i) there is a disability element or severe disability element (or both) to the working tax credit received by the person

- (ii) pan fo'r person neu bartner y person hefyd yn cael credyd treth plant; a
- (b) pan fo'r incwm blynyddol gros a gymerir i ystyriaeth ar gyfer cyfrifo'r credyd treth gwaith yn £16,190 neu lai.
- (4) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 51, ystyr “partner” (“*partner*”), mewn perthynas â pherson, yw—
- (a) pan fo'r person yn aelod o gwpl, yr aelod arall o'r cwpl hwnnw; neu
- (b) pan fo'r person yn briod mewn priodas amlbriod â dau neu ragor o aelodau o aelwyd, unrhyw aelod o'r fath.
- (5) Ym mharagraff (4), ystyr “cwl” (“*couple*”) yw—
- (a) dau berson sydd naill ai'n briod â'i gilydd, neu sy'n bartneriaid sifil i'w gilydd, ac yn aelodau o'r un aelwyd; neu
- (b) dau berson sy'n byw gyda'i gilydd fel pe baent yn gwpl priod.

Ad-dalu ffioedd

51.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mewn perthynas ag unrhyw gais y mae ffi'n daladwy amdano o dan reoliad 44, 45, 46, 47 neu 48, caiff tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol fod unrhyw barti i'r cais yn adalu i unrhyw barti arall hyd at y cyfan neu ran o unrhyw ffi a dalwyd gan y parti arall hwnnw mewn cysylltiad â'r cais.

(2) Ni chaiff tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol fod parti yn gwneud ad-daliad o'r fath os bodlonir y tribiwnlys, ar yr adeg pan fo'r tribiwnlys yn ystyried pa un a fydd yn gwneud hynny ai peidio, fod y parti neu bartner y parti hwnnw'n cael cymorth o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn rheoliad 50(2).

Dirymu

52. Mae'r Rheoliadau a'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu—

- (a) Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012(1);
- (b) Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2014(2);
- (c) Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014(3);

(1) O.S. 2012/531 (Cy. 83).
 (2) O.S. 2014/286 (Cy. 35).
 (3) O.S. 2014/2553 (Cy. 247).

- (ii) the person or the person's partner is also in receipt of child tax credit; and
- (b) the gross annual income taken into account for the calculation of the working tax credit is £16,190 or less.
- (4) In this regulation and in regulation 51, “partner” (“*partner*”), in relation to a person, means—
- (a) where the person is a member of a couple, the other member of that couple; or
- (b) where the person is polygamously married to two or more members of a household, any such member.
- (5) In paragraph (4), “couple” (“*couple*”) means—
- (a) two people who are either married to, or civil partners of, each other and who are members of the same household; or
- (b) two people who are living together as if they are a married couple.

Reimbursement of fees

51.—(1) Subject to paragraph (2), in relation to any application in respect of which a fee is payable under regulation 44, 45, 46, 47 or 48, a tribunal may require any party to the application to reimburse any other party to the extent of the whole or part of any fee paid by that party in respect of the application.

(2) A tribunal may not require a party to make such reimbursement if, at the time the tribunal is considering whether or not to do so, the tribunal is satisfied that the party or a partner of the party is in receipt of assistance of any description mentioned in regulation 50(2).

Revocation

52. The following Regulations and Orders are revoked—

- (a) The Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) Regulations 2012(1);
- (b) The Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) (Amendment) Regulations 2014(2);
- (c) The Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) (Amendment No. 2) Regulations 2014(3);

(1) S.I. 2012/531 (W. 83).
 (2) S.I. 2014/286 (W. 35).
 (3) S.I. 2014/2553 (W. 247).

- | | |
|---|--|
| <p>(d) Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2015(1);</p> <p>(e) erthygl 5(1), (2) a (6)(c)(i) o Orchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013(2);</p> <p>(f) paragraff 9 o Atodlen 2 i Orchymyn Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 (Darpariaethau Canlyniadol) 2014(3);</p> <p>(g) paragraff 98 o'r Atodlen i Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013(4).</p> | <p>(d) The Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) (Amendment) Regulations 2015(1);</p> <p>(e) article 5(1), (2) and (6)(c)(i) of the Mobile Homes Act 1983 (Amendment of Schedule 1 and Consequential Amendments) (Wales) Order 2013(2);</p> <p>(f) paragraph 9 of Schedule 2 to the Marriage (Same Sex Couples) Act 2013 (Consequential Provisions) Order 2014(3);</p> <p>(g) paragraph 98 of the Schedule to the Public Bodies (Abolition of Administrative Justice and Tribunals Council) Order 2013(4).</p> |
|---|--|

Carl Sargeant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, un o Weinidogion Cymru.
15 Tachwedd 2016

Cabinet Secretary for Communities and Children, one of the Welsh Ministers.
15 November 2016

(1) O.S. 2015/1821 (Cy. 263).
 (2) O.S. 2013/1723 (Cy. 167).
 (3) O.S. 2014/107.
 (4) O.S. 2013/2042.

(1) S.I. 2015/1821 (W. 263).
 (2) S.I. 2013/1723 (W. 167).
 (3) S.I. 2014/107.
 (4) S.I. 2013/2042.

YR ATODLEN

Rheoliadau 2 a 6

Manylion Ychwanegol ynglŷn â Rhai Ceisiadau

Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 1985

Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion dymchwel

1.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 269(1) o Ddeddf 1985 (apêl gan berson a dramgwyddwyd gan orchymyn dymchwel).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo); a
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) os sail y cais, neu un o'i seiliau, yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir yn adran 269A(2) o Ddeddf 1985 yw'r ffordd orau o weithredu mewn perthynas â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd honno o weithredu, ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai honno yw'r ffordd orau.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

2.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(1) neu (2)(a) o Ddeddf 1985 (cais mewn cysylltiad ag adennill treuliau ATLI wrth gyflawni gorchymyn dymchwel o dan adran 271 o Ddeddf 1985 gan gynnwys penderfynu'r cyfraniadau gan gydberchnogion).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) datganiad o'r canlynol—
 - (i) y treuliau yr aeth yr ATLI iddynt o dan adran 271 o Ddeddf 1985 (gweithredu gorchymyn dymchwel);
 - (ii) y swm (os oes un) a gafwyd drwy werthu defnyddiau; a
 - (iii) y swm y mae'r ATLI yn ceisio ei adennill oddi wrth unrhyw berchennog y fangre.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y fangre.

SCHEDULE

Regulations 2 and 6

Additional Details with Regard to Certain Applications

Applications made under the 1985 Act

Applications relating to demolition orders

1.—(1) This paragraph applies to an application under section 269(1) of the 1985 Act (appeal by person aggrieved by demolition order).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the demolition order made under section 265 of the 1985 Act (including any schedule to it); and
- (b) the statement of reasons; and
- (c) where the ground or one of the grounds of the application is that one of the courses of action mentioned in section 269A(2) of the 1985 Act is the best course of action in relation to the hazard, a statement identifying that course of action with the applicant's reasons for considering it the best course.

(3) The specified respondent is the LHA.

2.—(1) This paragraph applies to an application under section 272(1) or (2)(a) of the 1985 Act (application in connection with recovery of LHA's expenses in executing demolition order under section 271 of the 1985 Act including determination of contributions by joint owners).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the demolition order made under section 265 of the 1985 Act (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) a statement of—
 - (i) the expenses incurred by the LHA under section 271 of the 1985 Act (execution of demolition order);
 - (ii) the amount (if any) realised by the sale of materials; and
 - (iii) the amount the LHA seeks to recover from an owner of the premises.

(3) The specified respondent is the owner of the premises.

3.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(2)(b) o Ddeddf 1985 (cais gan un o berchnogion mangre am benderfynu'r cyfraniad i dreuliau ATLI, sydd i'w dalu gan berchennog arall).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) datganiad o'r canlynol—
 - (i) priod fuddiannau'r perchnogion yn y fangre; a
 - (ii) eu priod rwymedigaethau ac atebolrwyddau o ran cynnal a thrwsio, o dan unrhyw gyfamod neu gytundeb, boed yn ddatganedig neu ymhlyg.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r perchennog y mae'r ceisydd yn ceisio cyfraniad ganddo tuag at dreuliau'r ATLI.

4.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 317(1) o Ddeddf 1985 (cais gan lesydd neu lesddeiliad mangre y daeth gorchymyn dymchwel yn weithredol mewn cysylltiad â hi, am orchymyn yn amrywio neu'n terfynu les).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau;
- (c) copi o'r les berthnasol; a
- (d) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.

Ceisiadau sy'n ymwneud â gwaith ar fangreodd nad ydynt yn ffit

5.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 318(1) o Ddeddf 1985 (cais gan berson sydd â buddiant mewn mangre am awdurdodiad gan dribiwnlys i gyflawni gwaith ar fangre nad yw'n ffit, neu waith ar gyfer gwella).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) manylion y gwaith y mae'r ceisydd yn bwriadu ei gyflawni, gan gynnwys—
 - (i) enwau a chyfeiriadau contractwyr arfaethedig pan fo'n berthnasol;
 - (ii) amcangyfrif o gostau'r gwaith; a
 - (iii) amserlen ar gyfer cychwyn a chwblhau'r gwaith;

3.—(1) This paragraph applies to an application under section 272(2)(b) of the 1985 Act (application by owner of premises for determination of contribution to LHA's expenses to be paid by another owner).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the demolition order made under section 265 of the 1985 Act (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) a statement of—
 - (i) the owners' respective interests in the premises; and
 - (ii) their respective obligations and liabilities in respect of maintenance and repair under any covenant or agreement, whether express or implied.

(3) The specified respondent is the owner from whom the applicant seeks a contribution to the LHA's expenses.

4.—(1) This paragraph applies to an application under section 317(1) of the 1985 Act (application by lessor or lessee of premises in respect of which demolition order has become operative, for an order varying or determining lease).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the demolition order made under section 265 of the 1985 Act (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons;
- (c) a copy of the relevant lease; and
- (d) a statement of the name and address of any other party to the lease and of any party to an inferior lease.

(3) The specified respondent is the other party to the lease.

Applications relating to work on unfit premises

5.—(1) This paragraph applies to an application under section 318(1) of the 1985 Act (application by person with interest in premises for authorisation by tribunal of execution of works on unfit premises or for improvement).

(2) The specified documents are—

- (a) details of the work which the applicant proposes to carry out including—
 - (i) names and addresses of proposed contractors where relevant;
 - (ii) an estimate of the costs of the work; and
 - (iii) a timetable for starting and completing the work;

- (b) pan wneir y cais ar y sail a grybwyllir yn adran 318(1)(b) o Ddeddf 1985, manylion—
 - (i) y cynllun gwella neu ailadeiladu y mae'r ceisydd yn dymuno ei gyflawni; a
 - (ii) y gymeradwyaeth o'r cynllun gan yr ATLI;
 - (c) datganiad o statws ariannol y ceisydd, gan gynnwys datgeliad o'r cyllid sydd ar gael i ddiwallu costau amcangyfrifedig y gwaith; a
 - (d) pan fo'r cais yn cynnwys cais am orchymyn yn terfynu les a ddelir oddi wrth y ceisydd neu les ddeilliannol, copi o'r les honno.
- (3) Yr ymatebwyr penodedig yw—
- (a) y person sydd â hawl i feddiannu'r fangre;
 - (b) perchennog y fangre.

Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

Ceisiadau sy'n ymwneud â hysbysiadau gwella

6.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 10(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn hysbysiad gwella) ac eithrio cais y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

- (2) Y dogfennau penodedig yw—
- (a) copi o'r hysbysiad gwella (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
 - (b) y datganiad o resymau; ac
 - (c) os sail y cais, neu un o'i seiliau, yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 12(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 2004 yw'r ffordd orau o weithredu mewn perthynas â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd honno o weithredu, ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai honno yw'r ffordd orau.
- (3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

7.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf 2004 sydd ar y sail a nodir ym mharagraff 11(1) o'r Atodlen honno (sail apêl yn ymwneud â phersonau eraill), neu sy'n cynnwys y sail honno.

- (2) Y dogfennau penodedig yw—
- (a) copi o'r hysbysiad gwella (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
 - (b) y datganiad o resymau;
 - (c) os un o'r seiliau ar gyfer y cais yw mai ffordd arall o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 12(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 2004 yw'r ffordd

- (b) where the application is made on the ground mentioned in section 318(1)(b) of the 1985 Act, details of—
 - (i) the scheme of improvement or reconstruction which the applicant wishes to carry out; and
 - (ii) the LHA's approval of the scheme;
 - (c) a statement of the financial standing of the applicant including disclosure of funds available to meet the estimated costs of the work; and
 - (d) where the application includes a request for an order determining a lease held from the applicant or a derivative lease, a copy of that lease.
- (3) The specified respondents are—
- (a) the person with a right to possession of the premises;
 - (b) the owner of the premises.

Applications Made Under the 2004 Act

Applications relating to improvement notices

6.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 10(1) of Schedule 1 to the 2004 Act (appeal against improvement notice) other than an application referred to in paragraph 2.

- (2) The specified documents are—
- (a) a copy of the improvement notice (including any schedule to it);
 - (b) the statement of reasons; and
 - (c) where the ground or one of the grounds of the application is that one of the courses of action mentioned in paragraph 12(2) of Schedule 1 to the 2004 Act is the best course of action in relation to the hazard, a statement identifying that course of action with the applicant's reasons for considering it the best course.

(3) The specified respondent is the LHA.

7.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 10 of Schedule 1 to the 2004 Act which consists of or includes the ground set out in paragraph 11(1) of that Schedule (ground of appeal relating to other persons).

- (2) The specified documents are—
- (a) a copy of the improvement notice (including any schedule to it);
 - (b) the statement of reasons;
 - (c) where one of the grounds of the application is that another course of action mentioned in paragraph 12(2) of Schedule 1 to the 2004 Act

orau o weithredu mewn perthynas â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd honno o weithredu, ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai honno yw'r ffordd orau;

- (d) enw a chyfeiriad unrhyw berson a ddylai, fel un o berchnogion y fangre, ym marn y ceisydd, weithredu fel sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad gwella neu dalu'r cyfan neu ran o gostau'r gweithredu hwnnw ("y perchennog arall");
- (e) prawf bod copi o'r cais wedi ei gyflwyno i'r perchennog arall; ac
- (f) datganiad yn cynnwys y manylion a ganlyn—
 - (i) natur buddiant y perchennog arall yn y fangre;
 - (ii) y rheswm pam y mae'r ceisydd yn ystyried y dylai'r perchennog arall weithredu fel sydd dan sylw, neu dalu'r cyfan neu ran o gost gweithredu felly; a
 - (iii) os sail y cais yw y dylai'r perchennog arall dalu'r cyfan neu ran o gost y gweithredu, amcangyfrif o gost y gweithredu a'r gyfran o'r gost honno y mae'r ceisydd yn ystyried y dylai'r perchennog arall ei thalu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

8.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 13(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLI i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu hysbysiad gwella).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hysbysiad gwella (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) copi o benderfyniad yr ATLI i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu (gan gynnwys unrhyw ddogfennau a ddyroddwyd gan yr ATLI mewn cysylltiad â'i hysbysiad o benderfyniad).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

9.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan—

- (a) paragraff 11(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn hawliad gan yr ATLI am adennill y treuliau yr aeth yr ATLI iddynt wrth weithredu pan fo hysbysiad gwella wedi ei gyflwyno); a
- (b) y paragraff hwnnw fel y'i cymhwysir gydag addasiadau gan adran 42 o Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn hawliad gan yr ATLI am adennill y

is the best course of action in relation to the hazard, a statement identifying that course of action with the applicant's reasons for considering it the best course;

- (d) the name and address of any person who as an owner of the premises, in the applicant's opinion ought to take the action required by the improvement notice or pay the whole or part of the costs of taking that action ("the other owner");
- (e) proof of service of a copy of the application on the other owner; and
- (f) a statement containing the following details—
 - (i) the nature of the other owner's interest in the premises;
 - (ii) the reason the applicant considers the other owner ought to take the action concerned or pay the whole or part of the cost of taking that action; and
 - (iii) where the ground of the application is that the other owner ought to pay the whole or part of the cost of taking the action, the estimated cost of taking the action and the proportion of that cost which the applicant considers the other owner ought to pay.

(3) The specified respondent is the LHA.

8.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 13(1) of Schedule 1 to the 2004 Act (appeal against LHA's decision to vary, or to refuse to vary or revoke, an improvement notice).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the improvement notice (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) a copy of the LHA's decision to vary, or to refuse to vary or revoke (including any documentation issued by the LHA in connection with its notice of decision).

(3) The specified respondent is the LHA.

9.—(1) This paragraph applies to an application under—

- (a) paragraph 11(1) of Schedule 3 to the 2004 Act (appeal against demand by the LHA for recovery of expenses incurred by the LHA in taking action where improvement notice has been served); and
- (b) that paragraph as applied with modifications by section 42 of the 2004 Act (an appeal against a demand by the LHA for recovery of

treuliau yr aed iddynt wrth gymryd camau adferol brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hysbysiad gwella neu (yn ôl y digwydd) yr hysbysiad o weithredu adferol brys (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) yr hysbysiad o'r datganiad o resymau;
- (c) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr ATLL o dan baragraff 4 o Atodlen 3 i Ddeddf 2004 (hysbysiad ynghylch bwriad ATLL i fynd i fangre i gymryd camau gweithredu penodedig heb gytundeb);
- (d) copi o hawliad yr ATLL am dreuliau; ac
- (e) pan wneir y cais ar y sail a grybwyllir ym mharagraff 11(4) o'r Atodlen honno, manylion y cynnydd y dibynnir ar iddo gael ei wneud tuag at gydymffurfio â'r hysbysiad.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchymynion gwahardd

10.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 22(9) o Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn gwrthodiad gan ATLL i gymeradwyo defnydd penodol o dan adran 22(4) o Ddeddf 2004).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn gwahardd (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) hysbysiad o benderfyniad yr ATLL i wrthod cymeradwyo defnydd penodol o'r cyfan neu ran o'r fangre.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

11.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 34(2) o Ddeddf 2004 (cais gan lesydd neu lesddeiliad am orchymyn yn terfynu neu'n amrywio les pan fo gorchymyn gwahardd wedi dod yn weithredol).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn gwahardd (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau;
- (c) copi o'r les berthnasol; a
- (d) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.

expenses incurred by taking emergency remedial action).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the improvement notice or (as the case may be) the notice of emergency remedial action (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons notice;
- (c) a copy of the notice served by the LHA under paragraph 4 of Schedule 3 to the 2004 Act (notice of LHA's intention to enter premises to carry out specified actions without agreement);
- (d) a copy of the LHA's demand for expenses; and
- (e) where the application is made on the ground mentioned in paragraph 11(4) of that Schedule, details of the progress relied upon as being made towards compliance with the notice.

(3) The specified respondent is the LHA.

Applications relating to prohibition orders

10.—(1) This paragraph applies to an application under section 22(9) of the 2004 Act (appeal against LHA's refusal to give approval of particular use under section 22(4) of the 2004 Act).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the prohibition order (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) notice of the LHA's decision to refuse a particular use of the whole or part of the premises.

(3) The specified respondent is the LHA.

11.—(1) This paragraph applies to an application under section 34(2) of the 2004 Act (application by lessor or lessee for order determining or varying lease where a prohibition order has become operative).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the prohibition order (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons;
- (c) a copy of the relevant lease; and
- (d) a statement of the name and address of any other party to the lease and of any party to an inferior lease.

(3) The specified respondent is the other party to the lease.

12.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 7(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn gorchymyn gwahardd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn gwahardd (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) os un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 8(2) o Atodlen 2 i Ddeddf 2004 yw'r ffordd orau o weithredu mewn perthynas â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd honno o weithredu ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai honno yw'r ffordd orau.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

13.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLI i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu gorchymyn gwahardd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn gwahardd (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) copi o benderfyniad yr ATLI i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu (gan gynnwys unrhyw ddogfennau a ddyroddwyd gan yr ATLI mewn cysylltiad â'i hysbysiad o benderfyniad).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

Ceisiadau sy'n ymwneud â gweithredu adferol brys

14.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 45(1) o Ddeddf 2004 (apêl gan berson y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan adran 41 o Ddeddf 2004 yn erbyn penderfyniad ATLI i gymryd camau gweithredu adferol brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hysbysiad o weithredu adferol brys (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo); a
- (b) y datganiad o resymau.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

15.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 45(2) o Ddeddf 2004 (apêl gan berson perthnasol yn erbyn gorchymyn gwahardd brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hysbysiad o orchymyn gwahardd brys a wnaed o dan adran 43 o Ddeddf 2004 (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo); a
- (b) y datganiad o resymau.

12.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 7(1) of Schedule 2 to the 2004 Act (appeal against prohibition order).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the prohibition order (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) where one of the grounds of the application is that one of the courses of action mentioned in paragraph 8(2) of Schedule 2 to the 2004 Act is the best course of action in relation to the hazard, a statement identifying that course of action with the applicant's reasons for considering it the best course.

(3) The specified respondent is the LHA.

13.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 9 of Schedule 2 to the 2004 Act (appeal against LHA's decision to vary, or to refuse to vary or revoke, a prohibition order).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the prohibition order (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) a copy of the LHA's decision to vary, or to refuse to vary or revoke (including any documentation issued by the LHA in connection with its notice of decision).

(3) The specified respondent is the LHA.

Applications relating to emergency remedial action

14.—(1) This paragraph applies to an application under section 45(1) of the 2004 Act (appeal by person upon whom a notice under section 41 of the 2004 Act has been served against LHA's decision to take emergency remedial action).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the notice of emergency remedial action (including any schedule to it); and
- (b) the statement of reasons.

(3) The specified respondent is the LHA.

15.—(1) This paragraph applies to an application under section 45(2) of the 2004 Act (appeal by relevant person against emergency prohibition order).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the notice of emergency prohibition order made under section 43 of the 2004 Act (including any schedule to it); and
- (b) the statement of reasons.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

16.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan—

- (a) paragraff 14 o Atodlen 3 i Ddeddf 2004 (cais gan ATLI am orchymyn i adennill treuliau a llog oddi wrth berson sy'n elwa o weithredu heb gytundeb); a
- (b) y paragraff hwnnw fel y'i cymhwysir gydag addasiadau gan adran 42 o Ddeddf 2004 (adennill treuliau am weithredu adferol brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hysbysiad gwella neu, yn ôl y digwydd, yr hysbysiad o weithredu adferol brys (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau;
- (c) copi o'r hawliad am dreuliau a gyflwynwyd o dan baragraff 9 o'r Atodlen honno;
- (d) copi o unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff 12 o'r Atodlen honno; ac
- (e) prawf bod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno i'r person o dan sylw fel y crybwyllir ym mharagraff 14(2) o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person y mae'r ATLI yn ceisio adennill treuliau a llog oddi wrtho.

Ceisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu HMO

17.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 62(7) o Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn gwrthodiad gan ATLI i gyflwyno hysbysiad esemptio dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hysbysiad i'r ATLI o dan adran 62(1) o Ddeddf 2004; a
- (b) copi o'r hysbysiad o benderfyniad yr ATLI o dan adran 62(6) o Ddeddf 2004.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

18.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 73(5) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLI neu feddiannydd am orchymyn ad-dalu rhent).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) pan wneir y cais gan yr ATLI—
 - (i) copi o'r hysbysiad o'r bwriad i ddwyn achos o dan adran 73(7) o Ddeddf 2004;
 - (ii) copi o unrhyw sylwadau a gafwyd mewn cysylltiad â'r hysbysiad;
 - (iii) naill ai—

(3) The specified respondent is the LHA.

16.—(1) This paragraph applies to an application under—

- (a) paragraph 14 of Schedule 3 to the 2004 Act (application by LHA for order for recovery of expenses and interest from person profiting from the taking of action without agreement); and
- (b) that paragraph as applied with modifications by section 42 of the 2004 Act (recovery of expenses of taking emergency remedial action).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the improvement notice or, as the case may be, the notice of emergency remedial action (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons;
- (c) a copy of the demand for expenses served under paragraph 9 of that Schedule;
- (d) a copy of any notice served under paragraph 12 of that Schedule; and
- (e) proof of service of notice of the application on the person concerned as mentioned in paragraph 14(2) of that Schedule.

(3) The specified respondent is the person from whom the LHA seeks to recover expenses and interest.

Applications relating to HMO licensing

17.—(1) This paragraph applies to an application under section 62(7) of the 2004 Act (appeal against refusal by LHA to serve a temporary exemption notice).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the notification to the LHA under section 62(1) of the 2004 Act; and
- (b) a copy of the LHA's decision notice under section 62(6) of the 2004 Act.

(3) The specified respondent is the LHA.

18.—(1) This paragraph applies to an application under section 73(5) of the 2004 Act (application by LHA or occupier for rent repayment order).

(2) The specified documents are—

- (a) where the application is made by the LHA—
 - (i) a copy of the notice of intended proceedings under section 73(7) of the 2004 Act;
 - (ii) a copy of any representation received in respect of the notice;
 - (iii) either—

- (aa) datganiad yn cynnwys y manylion y dibynnir arnynt ar gyfer gwneud yr honiad bod trosedd o dan adran 72(1) o Ddeddf 2004 wedi ei chyflawni; neu
- (bb) pan fo'r ATLI yn dibynnu ar ddarpariaethau adran 74 o Ddeddf 2004, prawf bod y person priodol wedi ei euogfarnu o drosedd o dan adran 72(1) o Ddeddf 2004; a
- (iv) dogfen sy'n dangos y budd-dal tai neu'r credyd cynhwysol a dalwyd gan yr ATLI mewn cysylltiad â meddiant o'r fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir i drosedd o'r fath gael ei chyflawni;
- (b) pan wneir y cais gan feddiannydd—
 - (i) tystiolaeth bod y person priodol wedi ei euogfarnu o drosedd o dan adran 72(1) o Ddeddf 2004 neu y'i gwnaed yn ofynnol drwy orchymyn ad-dalu rhent ei fod yn gwneud taliad mewn cysylltiad â budd-dal tai neu gredyd cynhwysol; a
 - (ii) tystiolaeth bod y meddiannydd wedi talu taliadau cyfnodol mewn cysylltiad â meddiant o'r fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir bod trosedd o'r fath yn cael ei chyflawni.
- (3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person priodol.

19.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 255(9) o Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLI i gyflwyno datganiad HMO).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r datganiad HMO.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

20.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 256(4) o Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLI i wrthod dirymu datganiad HMO).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r datganiad HMO; a
- (b) copi o hysbysiad yr ATLI o'i benderfyniad i beidio â dirymu'r datganiad HMO.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

21.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 31(1) o Atodlen 5 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLI i ganiatáu, neu wrthod caniatáu, trwydded o dan Ran 2 o Ddeddf 2004, neu yn erbyn unrhyw un o delerau'r drwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (aa) a statement containing the details relied on in making the allegation that an offence under section 72(1) of the 2004 Act was committed; or
- (bb) where the LHA relies on the provisions of section 74 of the 2004 Act, proof that the appropriate person has been convicted of an offence under section 72(1) of the 2004 Act; and
- (iv) a document showing the housing benefit or universal credit paid by the LHA in connection with occupation of the premises during the period in which it is alleged such an offence was committed;
- (b) where the application is made by an occupier—
 - (i) evidence that the appropriate person has been convicted of an offence under section 72(1) of the 2004 Act or has been required by a rent repayment order to make a payment in respect of housing benefit or universal credit; and
 - (ii) evidence that the occupier has paid periodical payments in respect of occupation of the premises during a period in which it is alleged that such an offence was being committed.
- (3) The specified respondent is the appropriate person.

19.—(1) This paragraph applies to an application under section 255(9) of the 2004 Act (appeal against decision of LHA to serve an HMO declaration).

(2) The specified document is a copy of the HMO declaration.

(3) The specified respondent is the LHA.

20.—(1) This paragraph applies to an application under section 256(4) of the 2004 Act (appeal against decision of LHA to refuse to revoke an HMO declaration).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the HMO declaration; and
- (b) a copy of the LHA's notice of decision not to revoke the HMO declaration.

(3) The specified respondent is the LHA.

21.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 31(1) of Schedule 5 to the 2004 Act (appeal against decision by LHA to grant, or refuse to grant, a licence under Part 2 of the 2004 Act, or against any of the terms of the licence).

(2) The specified documents are—

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â chaniatáu trwydded neu â thelerau trwydded—
 - (i) copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 1 a 7 o Atodlen 5 i Ddeddf 2004, ac o unrhyw hysbysiad o dan baragraff 3 o'r Atodlen honno; a
 - (ii) copi o'r drwydded; a
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ganiatáu trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 5 ac 8 o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

22.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 32(1) o Atodlen 5 i Ddeddf 2004 (apêl gan ddeiliad trwydded neu unrhyw berson perthnasol yn erbyn penderfyniad gan ATLL ynglŷn ag amrywio neu ddirymu trwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 14 ac 16 o Atodlen 5 i Ddeddf 2004;
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 19 ac 21 o'r Atodlen honno;
- (c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 22 a 24 o'r Atodlen honno;
- (d) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 26 ac 28 o'r Atodlen honno; ac
- (e) ym mhob achos, copi o'r drwydded.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

Ceisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu llety preswyl arall yn ddetholus

23.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 86(7) o Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn gwrthodiad gan yr ATLL i gyflwyno hysbysiad esemptio dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hysbysiad i'r ATLL o dan adran 86(1) o Ddeddf 2004; a
- (b) copi o'r hysbysiad o benderfyniad yr ATLL o dan adran 86(6) o Ddeddf 2004.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

- (a) where the application relates to the grant or terms of a licence—
 - (i) a copy of the LHA's notices under paragraphs 1 and 7 of Schedule 5 to the 2004 Act, and of any notice under paragraph 3 of that Schedule; and
 - (ii) a copy of the licence; and
- (b) where the application relates to a refusal to grant a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 5 and 8 of that Schedule.

(3) The specified respondent is the LHA.

22.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 32(1) of Schedule 5 to the 2004 Act (appeal by licence holder or any relevant person against decision by LHA with regard to the variation or revocation of licence).

(2) The specified documents are—

- (a) where the application relates to a decision to vary a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 14 and 16 of Schedule 5 to the 2004 Act;
- (b) where the application relates to refusal to vary a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 19 and 21 of that Schedule;
- (c) where the application relates to a decision to revoke a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 22 and 24 of that Schedule;
- (d) where the application relates to refusal to revoke a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 26 and 28 of that Schedule; and
- (e) in all cases a copy of the licence.

(3) The specified respondent is the LHA.

Applications relating to selective licensing of other residential accommodation

23.—(1) This paragraph applies to an application under section 86(7) of the 2004 Act (appeal against refusal by the LHA to serve a temporary exemption notice).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the notification to the LHA under section 86(1) of the 2004 Act; and
- (b) a copy of the LHA's decision notice under section 86(6) of the 2004 Act.

(3) The specified respondent is the LHA.

24.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 96(5) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLI neu feddiannydd am orchymyn ad-dalu rhent).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan wneir y cais gan yr ATLI—

- (i) copi o'r hysbysiad o'r bwriad i ddwyn achos o dan adran 96(7) o Ddeddf 2004;
- (ii) copi o unrhyw sylwadau a gafwyd mewn cysylltiad â'r hysbysiad;
- (iii) naill ai—
 - (aa) datganiad yn cynnwys y manylion y dibynnir arnynt ar gyfer gwneud yr honiad bod trosedd o dan adran 95(1) o Ddeddf 2004 wedi ei chyflawni; neu
 - (bb) pan fo'r ATLI yn dibynnu ar ddarpariaethau adran 97 o Ddeddf 2004, prawf bod y person priodol wedi ei euogfarnu o drosedd o dan adran 95(1) o Ddeddf 2004; a
- (iv) dogfen sy'n dangos y budd-dal tai neu'r credyd cynhwysol a dalwyd gan yr ATLI mewn cysylltiad â meddiant o'r fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir i drosedd o'r fath gael ei chyflawni;

(b) pan wneir y cais gan feddiannydd—

- (i) tystiolaeth bod y person priodol wedi ei euogfarnu o drosedd o dan adran 95(1) o Ddeddf 2004 neu y'i gwnaed yn ofynnol drwy orchymyn ad-dalu rhent ei fod yn gwneud taliad mewn cysylltiad â budd-dal tai neu gredyd cynhwysol; a
- (ii) tystiolaeth bod y meddiannydd wedi talu taliadau cyfnodol mewn cysylltiad â meddiant o'r fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir bod trosedd o'r fath yn cael ei chyflawni.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person priodol.

25.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 31 o Atodlen 5 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad gan ATLI i ganiatáu, neu wrthod caniatáu, trwydded o dan Ran 3, neu sy'n ymwneud â thelerau trwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â chaniatáu trwydded neu â thelerau trwydded—

- (i) copi o hysbysiadau'r ATLI o dan baragraffau 1 a 7 o Atodlen 5 i Ddeddf

24.—(1) This paragraph applies to an application under section 96(5) of the 2004 Act (application by LHA or occupier for a rent repayment order).

(2) The specified documents are—

(a) where the application is made by the LHA—

- (i) a copy of the notice of intended proceedings under section 96(7) of the 2004 Act;
- (ii) a copy of any representation received in respect of the notice;
- (iii) either—
 - (aa) a statement containing the details relied on in making the allegation that an offence under section 95(1) of the 2004 Act was committed; or
 - (bb) where the LHA relies on the provisions of section 97 of the 2004 Act, proof that the appropriate person has been convicted of an offence under section 95(1) of the 2004 Act; and
- (iv) a document showing the housing benefit or universal credit paid by the LHA in connection with occupation of the premises during the period in which it is alleged such an offence was committed;

(b) where the application is made by an occupier—

- (i) evidence that the appropriate person has been convicted of an offence under section 95(1) of the 2004 Act or has been required by a rent repayment order to make a payment in respect of housing benefit or universal credit; and
- (ii) evidence that the occupier has paid periodical payments in respect of occupation of the premises for a period during which it is alleged that such an offence was being committed.

(3) The specified respondent is the appropriate person.

25.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 31 of Schedule 5 to the 2004 Act (appeal against decision by LHA to grant or refuse licence under Part 3 or relating to terms of licence).

(2) The specified documents are—

(a) where the application relates to the grant or terms of a licence—

- (i) a copy of the LHA's notices under paragraphs 1 and 7 of Schedule 5 to the

2004, ac o unrhyw hysbysiad o dan baragraff 3 o'r Atodlen honno; a

(ii) copi o'r drwydded; a

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ganiatáu trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 5 ac 8 o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

26.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 32(1) o dan Atodlen 5 i Ddeddf 2004 (apêl gan ddeiliad trwydded neu berson perthnasol yn erbyn penderfyniad gan ATLL sy'n ymwneud ag amrywio neu ddirymu trwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 14 ac 16 o Atodlen 5 i Ddeddf 2004;

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 19 ac 21 o'r Atodlen honno;

(c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 22 a 24 o'r Atodlen honno;

(d) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 26 ac 28 o'r Atodlen honno; ac

(e) ym mhob achos, copi o'r drwydded.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion rheoli interim a therfynol

27.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 102(4) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLL am awdurdod i wneud gorchymyn rheoli interim).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn drafft;

(b) datganiad o'r materion sy'n berthnasol i ystyriaeth y tribiwnlys o—

(i) pa un a yw'r amod iechyd a diogelwch yn adran 104 o Ddeddf 2004 wedi ei fodloni; a

(ii) i ba raddau y cydymffurfwyd ag unrhyw god ymarfer cymwys a gymeradwywyd o dan adran 233 o Ddeddf 2004; a

(iii) pan fo'r ATLL yn gofyn am ymdrin â'r cais fel mater brys o dan reoliad 10, datganiad sy'n rhoi manylion digonol i alluogi'r tribiwnlys i ffurfio barn ynglŷn

2004 Act, and of any notice under paragraph 3 of that Schedule; and

(ii) a copy of the licence; and

(b) where the application relates to a refusal to grant a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 5 and 8 of that Schedule.

(3) The specified respondent is the LHA.

26.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 32(1) of Schedule 5 to the 2004 Act (appeal by licence holder or relevant person against decision by LHA relating to variation or revocation of licence).

(2) The specified documents are—

(a) where the application relates to a decision to vary a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 14 and 16 of Schedule 5 to the 2004 Act;

(b) where the application relates to refusal to vary a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 19 and 21 of that Schedule;

(c) where the application relates to a decision to revoke a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 22 and 24 of that Schedule;

(d) where the application relates to refusal to revoke a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 26 and 28 of that Schedule; and

(e) in all cases a copy of the licence.

(3) The specified respondent is the LHA.

Applications relating to interim and final management orders

27.—(1) This paragraph applies to an application under section 102(4) of the 2004 Act (LHA application for authorisation to make an interim management order).

(2) The specified documents are—

(a) a copy of the draft order;

(b) a statement of matters relevant to the tribunal's consideration of—

(i) whether the health and safety condition in section 104 of the 2004 Act is satisfied; and

(ii) the extent to which any applicable code of practice approved under section 233 of the 2004 Act has been complied with; and

(iii) where the LHA requests that the application be dealt with as a matter of urgency under regulation 10, a statement giving sufficient details to enable the

ag a yw'n ymddangos bod yr amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwnnw yn bodoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw person perthnasol yn ôl y diffiniad o "relevant person" ym mharagraffau 8(4) a 35 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004.

28.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 102(7) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLI am awdurdod i wneud gorchymyn rheoli interim mewn cysylltiad â thŷ y mae adran 103 o Ddeddf 2004 yn gymwys iddo).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn drafft;
- (b) datganiad o'r materion sy'n berthnasol i ystyriaeth y tribiwnlys ynglŷn ag a yw'r amodau yn adran 103(3) a (4) o Ddeddf 2004 wedi eu bodloni; ac
- (c) pan fo'r ATLI yn gofyn am ymdrin â'r cais fel mater brys o dan reoliad 10, datganiad sy'n rhoi manylion digonol i alluogi'r tribiwnlys i ffurfio barn ynglŷn ag a yw'n ymddangos bod yr amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwnnw yn bodoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw person perthnasol yn ôl y diffiniad o "relevant person" ym mharagraffau 8(4) a 35 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004.

29.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 105(10) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLI am orchymyn bod gorchymyn rheoli interim yn parhau mewn grym hyd nes penderfynir apêl).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli interim; a
- (b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli terfynol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl berthnasol.

30.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 110(7) o Ddeddf 2004 (cais gan landlord perthnasol am orchymyn mewn perthynas â threfniadau ariannol tra bo gorchymyn rheoli interim mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli interim; a
- (b) copi o'r cyfrifon a gadwyd gan yr ATLI yn unol ag adran 110(6) o Ddeddf 2004.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

tribunal to form an opinion as to whether the exceptional circumstances mentioned in paragraph (3) of that regulation appear to exist.

(3) The specified respondent is a relevant person as defined in paragraphs 8(4) and 35 of Schedule 6 to the 2004 Act.

28.—(1) This paragraph applies to an application under section 102(7) of the 2004 Act (LHA application for authorisation to make an interim management order in respect of a house to which section 103 of the 2004 Act applies).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the draft order;
- (b) a statement of matters relevant to the tribunal's consideration as to whether the conditions in section 103(3) and (4) of the 2004 Act are satisfied; and
- (c) where the LHA requests that the application be dealt with as a matter of urgency under regulation 10, a statement giving sufficient details to enable the tribunal to form an opinion as to whether the exceptional circumstances mentioned in paragraph (3) of that regulation appear to exist.

(3) The specified respondent is a relevant person as defined in paragraphs 8(4) and 35 of Schedule 6 to the 2004 Act.

29.—(1) This paragraph applies to an application under section 105(10) of the 2004 Act (LHA application for order that an interim management order continue in force pending disposal of appeal).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the interim management order; and
- (b) a copy of the notice of appeal under paragraph 24 of Schedule 6 to the 2004 Act against the making of a final management order.

(3) The specified respondent is the applicant who has made the relevant appeal.

30.—(1) This paragraph applies to an application under section 110(7) of the 2004 Act (application by relevant landlord for order regarding financial arrangements while interim management order in force).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the interim management order; and
- (b) a copy of the accounts kept by the LHA in accordance with section 110(6) of the 2004 Act.

(3) The specified respondent is the LHA.

31.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 114(7) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLI am orchymyn bod gorchymyn rheoli terfynol sy'n bodoli eisoes i barhau mewn grym hyd nes penderfynir apêl yn erbyn gorchymyn rheoli terfynol newydd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli terfynol sy'n bodoli eisoes;
- (b) copi o'r gorchymyn rheoli terfynol newydd a wnaed i ddisodli'r gorchymyn sy'n bodoli eisoes; ac
- (c) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 yn erbyn gwneud y gorchymyn rheoli terfynol newydd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl berthnasol.

32.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 120(1) o Ddeddf 2004 (cais gan berson yr effeithir arno am orchymyn bod yr ATLI yn rheoli yn unol â'r cynllun rheoli yn y gorchymyn rheoli terfynol).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn rheoli terfynol sy'n cynnwys y cynllun rheoli y cyfeirir ato yn y cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

33.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 126(4) o Ddeddf 2004 (cais am addasu hawliau ac atebolrwyddau mewn perthynas â dodrefn a freinir yn yr ATLI tra bo gorchymyn rheoli mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli perthnasol; a
- (b) datganiad sy'n rhoi manylion am briod hawliau ac atebolrwyddau (gan gynnwys perchnogaeth) pob un o'r personau sydd â buddiant yn y dodrefn.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person arall sydd â buddiant yn y dodrefn.

34.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 130(9) o Ddeddf 2004 (cais i benderfynu pwy yw "y landlord perthnasol" ("*the relevant landlord*") at ddibenion adran 130 o Ddeddf 2004 pan ddaw'r gorchymyn rheoli i ben).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn rheoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r landlord perthnasol arall.

35.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli, neu yn erbyn telerau'r gorchymyn neu'r cynllun rheoli cysylltiedig).

31.—(1) This paragraph applies to an application under section 114(7) of the 2004 Act (LHA application for order that existing final management order continue in force pending disposal of appeal against new final management order).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the existing final management order;
- (b) a copy of the new final management order made in order to replace it; and
- (c) a copy of the notice of appeal under paragraph 24 of Schedule 6 to the 2004 Act against the making of the new final management order.

(3) The specified respondent is the applicant who has made the relevant appeal.

32.—(1) This paragraph applies to an application under section 120(1) of the 2004 Act (application by an affected person for order that LHA manage in accordance with management scheme in final management order).

(2) The specified document is a copy of the final management order which contains the management scheme to which the application relates.

(3) The specified respondent is the LHA.

33.—(1) This paragraph applies to an application under section 126(4) of the 2004 Act (application for adjustment of rights and liabilities with regard to furniture vested in LHA while management order in force).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the relevant management order; and
- (b) a statement giving details of the respective rights and liabilities (including ownership) of the persons interested in the furniture.

(3) The specified respondent is the other person interested in the furniture.

34.—(1) This paragraph applies to an application under section 130(9) of the 2004 Act (application to determine who is "the relevant landlord" ("*y landlord perthnasol*") for the purposes of section 130 of the 2004 Act on termination of management order).

(2) The specified document is a copy of the management order.

(3) The specified respondent is the other relevant landlord.

35.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 24 of Schedule 6 to the 2004 Act (appeal against making of a management order, or against the terms of the order or of associated management scheme).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli (gan gynnwys y cynllun rheoli);
- (b) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr ATLL o dan baragraff 7(2)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 2004;
- (c) pan fo'r cais yn ymwneud â thelerau'r gorchymyn rheoli, datganiad sy'n pennu pob un o'r telerau a wrthwynebir, ynghyd â'r rhesymau dros y gwrthwynebiad; a
- (d) pan wneir y cais ar y sail a bennir ym mharagraff 24(3) o Atodlen 6 i Ddeddf 2004, datganiad o'r materion yn adran 110(5) o Ddeddf 2004 (sy'n ymwneud â thalu rhenti dros ben, etc.) sy'n berthnasol i'r sail honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

36.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 28 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLL i amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli, neu wrthod amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 9 ac 11 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004;
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 14 ac 16 o'r Atodlen honno;
- (c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 17 a 19 o'r Atodlen honno;
- (d) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r ATLL o dan baragraffau 20 a 22 o'r Atodlen honno; ac
- (e) ym mhob achos—
 - (i) copi o'r gorchymyn rheoli; a
 - (ii) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr ATLL o dan baragraff 7(2)(b) o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

37.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 32(2) o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 (apêl gan drydydd parti yn erbyn penderfyniad gan ATLL o dan adran 128 o Ddeddf 2004 ynglŷn â'r digollediad sy'n daladwy i drydydd partiön).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the management order (including the management scheme);
- (b) a copy of the notice served by the LHA under paragraph 7(2)(b) of Schedule 6 to the 2004 Act;
- (c) where the application relates to the terms of the management order, a statement specifying each term to which objection is made, with reasons for the objection; and
- (d) where the application is made on the ground specified in paragraph 24(3) of Schedule 6 to the 2004 Act, a statement of the matters in section 110(5) of the 2004 Act (which relates to payments of surplus rents etc.) relevant to that ground.

(3) The specified respondent is the LHA.

36.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 28 of Schedule 6 to the 2004 Act (appeal against LHA's decision to vary or revoke, or to refuse to vary or revoke a management order).

(2) The specified documents are—

- (a) where the application relates to a decision to vary a management order, a copy of the LHA's notices under paragraphs 9 and 11 of Schedule 6 to the 2004 Act;
- (b) where the application relates to refusal to vary a management order, a copy of the LHA's notices under paragraphs 14 and 16 of that Schedule;
- (c) where the application relates to a decision to revoke a management order, a copy of the LHA's notices under paragraphs 17 and 19 of that Schedule;
- (d) where the application relates to refusal to revoke a management order, a copy of the LHA's notices under paragraphs 20 and 22 of that Schedule; and
- (e) in any case—
 - (i) a copy of the management order; and
 - (ii) a copy of the notice served by the LHA under paragraph 7(2)(b) of that Schedule.

(3) The specified respondent is the LHA.

37.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 32(2) of Schedule 6 to the 2004 Act (appeal by third party against LHA's decision under section 128 of the 2004 Act regarding compensation payable to third parties).

(2) The specified documents are—

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli (gan gynnwys y cynllun rheoli);
- (b) copi o hysbysiad yr ATLI i'r trydydd parti, o benderfyniad yr ATLI yn unol ag adran 128(2) o Ddeddf 2004; ac
- (c) datganiad sy'n rhoi manylion llawn o'r canlynol—
 - (i) yr hawliau yr honnir yr ymyrrwyd â hwy o ganlyniad i'r gorchymyn rheoli; a
 - (ii) swm y digollediad a hawlir mewn cysylltiad â'r ymyrraeth honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

Ceisiadau mewn perthynas â gorchmynion rheoli anheddau gwag

38.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 133(1) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLI am awdurdodiad i wneud GRhAG interim).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r GRhAG interim drafft;
- (b) datganiad o dystiolaeth—
 - (i) mewn cysylltiad â'r materion y mae'n rhaid bodloni'r tribiwnlys yn eu cylch o dan adran 134(2) o Ddeddf 2004;
 - (ii) ynglŷn ag ystyriaeth yr ATLI o'r hawliau a'r buddiannau a bennir yn adran 133(4) o Ddeddf 2004; ac
- (c) pan fo'r ATLI, yn unol ag adran 133(3) o Ddeddf 2004, wedi hysbysu'r perchennog perthnasol ei fod yn ystyried gwneud GRhAG interim, copi o'r hysbysiad.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r perchennog perthnasol.

39.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 138(1) o Ddeddf 2004 (cais, tra bo GRhAG interim mewn grym, am orchymyn bod yr ATLI i dalu digollediad i drydydd parti am ymyrryd â'i hawliau).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r GRhAG interim;
- (b) copi o hysbysiad yr ATLI i'r trydydd parti, o benderfyniad yr ATLI yn unol ag adran 138(4) o Ddeddf 2004; ac
- (c) datganiad sy'n rhoi manylion llawn o'r canlynol—
 - (i) yr hawliau yr honnir yr ymyrrwyd â hwy o ganlyniad i'r GRhAG interim; a

- (a) a copy of the management order (including the management scheme);
- (b) a copy of the LHA's notification of its decision to the third party in accordance with section 128(2) of the 2004 Act; and
- (c) a statement giving full details of—
 - (i) the rights in respect of which it is claimed that there has been interference in consequence of the management order; and
 - (ii) the amount of compensation claimed in respect of that interference.

(3) The specified respondent is the LHA.

Applications in relation to empty dwelling management orders

38.—(1) This paragraph applies to an application under section 133(1) of the 2004 Act (LHA application for authorisation to make interim EDMO).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the draft interim EDMO;
- (b) a statement of evidence—
 - (i) in respect of the matters as to which the tribunal must be satisfied under section 134(2) of the 2004 Act;
 - (ii) of the LHA's consideration of the rights and interests specified in section 133(4) of the 2004 Act; and
- (c) where the LHA in accordance with section 133(3) of the 2004 Act notified the relevant proprietor that it was considering making an interim EDMO, a copy of the notification.

(3) The specified respondent is the relevant proprietor.

39.—(1) This paragraph applies to an application under section 138(1) of the 2004 Act (application while interim EDMO in force for order that the LHA pay compensation to third party for interference with rights).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the interim EDMO;
- (b) a copy of the LHA's notification of its decision to the third party in accordance with section 138(4) of the 2004 Act; and
- (c) a statement giving full details of—
 - (i) the rights in respect of which it is claimed that there has been interference in consequence of the interim EDMO; and

- (ii) swm y digollediad a hawlir mewn cysylltiad â'r ymyrraeth honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

40.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 1(7) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (cais gan ATLI am orchymyn bod GRhAG interim i barhau mewn grym hyd nes penderfynir apêl o dan baragraff 26 o'r Atodlen honno).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r GRhAG interim; a
- (b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 26 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 yn erbyn gwneud GRhAG interim.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl berthnasol.

41.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 2(3)(d) neu baragraff 10(3)(d) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (cais gan ATLI am orchymyn o dan baragraff 22 o'r Atodlen honno i derfynu les neu drwydded tra bo GRhAG interim neu derfynol mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r GRhAG interim neu derfynol (gan gynnwys unrhyw gynllun rheoli);
- (b) copi o'r les neu'r drwydded berthnasol, neu os nad oes copi ohoni ar gael, tystiolaeth o fodolaeth y les neu'r drwydded; ac
- (c) datganiad yn cynnwys y manylion a ganlyn—
 - (i) enw a chyfeiriad, os ydynt yn hysbys, unrhyw lesydd, lesddeiliad, is-lesydd, is-lesddeiliad, neu drwyddedai;
 - (ii) tystiolaeth o'r materion y mae'n rhaid bodloni'r tribiwnlys yn eu cylch o dan baragraff 22(1)(b) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004; a
 - (iii) swm y digollediad (os oes rhywfaint) y mae'r ATLI yn fodlon ei dalu mewn cysylltiad â therfynu'r les neu'r drwydded, gan gynnwys manylion o'r modd y cyfrifwyd swm y digollediad hwnnw.

(3) Yr ymatebwyr penodedig yw'r partion i'r les neu'r drwydded.

42.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 5(7) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (cais gan berchennog perthnasol am orchymyn mewn cysylltiad â threfniadau ariannol tra bo GRhAG interim mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r GRhAG interim; a

- (ii) the amount of compensation claimed in respect of that interference.

(3) The specified respondent is the LHA.

40.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 1(7) of Schedule 7 to the 2004 Act (LHA application for order that interim EDMO continue in force pending disposal of appeal under paragraph 26 of that Schedule).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the interim EDMO; and
- (b) a copy of the notice of appeal under paragraph 26 of Schedule 7 to the 2004 Act against the making of an interim EDMO.

(3) The specified respondent is the applicant who has made the relevant appeal.

41.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 2(3)(d) or paragraph 10(3)(d) of Schedule 7 to the 2004 Act (LHA's application for order under paragraph 22 of that Schedule determining a lease or licence while interim or final EDMO is in force).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the interim or final EDMO (including any management scheme);
- (b) a copy of the relevant lease or licence, or if not available, evidence of the existence of the lease or licence; and
- (c) a statement containing the following details—
 - (i) the name and address where known of any lessor, lessee, sub-lessor, sub-lessee or licensee;
 - (ii) evidence of matters in respect of which the tribunal must be satisfied under paragraph 22(1)(b) of Schedule 7 to the 2004 Act; and
 - (iii) the amount of compensation (if any) which the LHA is willing to pay in respect of the determination of the lease or licence, including details of how such compensation has been calculated.

(3) The specified respondents are the parties to the lease or licence.

42.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 5(7) of Schedule 7 to the 2004 Act (application by relevant proprietor for order in connection with financial arrangements while interim EDMO in force).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the interim EDMO; and

(b) copi o'r cyfrifon a gedwir gan yr ATLI yn unol â pharagraff 5(6) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

43.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 9(8) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (cais gan ATLI am orchymyn bod GRhAG terfynol i barhau mewn grym hyd nes penderfynir apêl o dan baragraff 26 o'r Atodlen honno).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r GRhAG terfynol; a
- (b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 26 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 yn erbyn gwneud GRhAG terfynol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl berthnasol.

44.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 14(1) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (cais gan berson yr effeithir arno am orchymyn bod ATLI i reoli annedd yn unol â chynllun rheoli mewn GRhAG terfynol).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r GRhAG terfynol (gan gynnwys y cynllun rheoli).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

45.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 26(1) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLI i wneud GRhAG terfynol, neu yn erbyn telerau'r gorchymyn neu gynllun rheoli cysylltiedig).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r GRhAG terfynol (gan gynnwys y cynllun rheoli);
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â thelerau'r gorchymyn rheoli, datganiad yn pennu pob un o'r telerau a wrthwynebir, ynghyd â'r rhesymau dros y gwrthwynebiad; ac
- (c) pan wneir y cais ar y sail a bennir ym mharagraff 26(1)(c) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004, datganiad o'r materion ym mharagraff 5(5)(a) a (b) o'r Atodlen honno (sy'n ymwneud â thalu rhenti dros ben etc.) sy'n berthnasol i'r sail honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

46.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 30 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLI i amrywio neu ddirymu GRhAG interim neu derfynol, neu wrthod amrywio neu ddirymu gorchymyn o'r fath).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(b) a copy of the accounts kept by the LHA in accordance with paragraph 5(6) of Schedule 7 to the 2004 Act.

(3) The specified respondent is the LHA.

43.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 9(8) of Schedule 7 to the 2004 Act (application by LHA for order that final EDMO should continue in force pending disposal of an appeal under paragraph 26 of that Schedule).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the final EDMO; and
- (b) a copy of the notice of appeal under paragraph 26 of Schedule 7 to the 2004 Act against the making of a final EDMO.

(3) The specified respondent is the applicant who has made the relevant appeal.

44.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 14(1) of Schedule 7 to the 2004 Act (application by an affected person for order that LHA manage dwelling in accordance with management scheme in final EDMO).

(2) The specified document is a copy of the final EDMO (including the management scheme).

(3) The specified respondent is the LHA.

45.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 26(1) of Schedule 7 to the 2004 Act (appeal against LHA's decision to make final EDMO or against terms of the order or of associated management scheme).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the final EDMO (including the management scheme);
- (b) where the application relates to the terms of the management order, a statement specifying each term to which objection is made, with reasons for the objection; and
- (c) where the application is made on the ground specified in paragraph 26(1)(c) of Schedule 7 to the 2004 Act, a statement of the matters in paragraph 5(5)(a) and (b) of that Schedule (which relate to payments of surplus rents etc.) relevant to that ground.

(3) The specified respondent is the LHA.

46.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 30 of Schedule 7 to the 2004 Act (appeal against LHA's decision to vary or revoke, or to refuse to vary or revoke interim or final EDMO).

(2) The specified documents are—

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio GRhAG interim neu derfynol, copi o hysbysiadau'r ATLI o dan baragraffau 9 ac 11 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 (fel y'u cymhwysir gan baragraff 17 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno);
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio GRhAG interim neu derfynol, copi o hysbysiadau'r ATLI o dan baragraffau 14 ac 16 o'r Atodlen honno;
- (c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu GRhAG interim neu derfynol, copi o hysbysiadau'r ATLI o dan baragraffau 17 a 19 o'r Atodlen honno; a
- (d) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu GRhAG interim neu derfynol, copi o hysbysiadau'r ATLI o dan baragraffau 20 a 22 o'r Atodlen honno; ac
- (e) ym mhob achos, copi o'r GRhAG interim neu derfynol (yn ôl y digwydd).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

47.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 34(2) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLI o dan adran 136(4) neu 138(3) o Ddeddf 2004 mewn cysylltiad â'r digollediad sy'n daladwy i drydydd partion am ymyrraeth â'u hawliau o ganlyniad i GRhAG terfynol).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r GRhAG terfynol (gan gynnwys y cynllun rheoli);
- (b) pan fo'r trydydd parti wedi gofyn am ei ddigolledu o dan adran 138 o Ddeddf 2004, copi o hysbysiad yr ATLI o'i benderfyniad i'r trydydd parti yn unol ag is-adran (4) o'r adran honno; ac
- (c) datganiad sy'n rhoi manylion llawn o'r canlynol—
 - (i) yr hawliau yr honnir yr ymyrrwyd â hwy o ganlyniad i'r GRhAG terfynol; a
 - (ii) swm y digollediad a hawlir mewn cysylltiad â'r ymyrraeth honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

Ceisiadau mewn perthynas â hysbysiadau gorlenwi

48.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 143(1) o Ddeddf 2004 (apêl gan berson a dramgwyddwyd gan hysbysiad gorlenwi).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r hysbysiad gorlenwi, neu ddatganiad gan y ceisydd yn esbonio'r amgylchiadau sydd wedi peri na all y ceisydd ddarparu copi o'r hysbysiad hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLI.

- (a) where the application relates to a decision to vary an interim or final EDMO, a copy of the LHA's notices under paragraphs 9 and 11 of Schedule 6 to the 2004 Act (as applied by paragraph 17 of Schedule 7 to that Act);
- (b) where the application relates to refusal to vary an interim or final EDMO, a copy of the LHA's notices under paragraphs 14 and 16 of that Schedule;
- (c) where the application relates to a decision to revoke an interim or final EDMO, a copy of the LHA's notices under paragraphs 17 and 19 of that Schedule; and
- (d) where the application relates to refusal to revoke an interim or final EDMO, a copy of the LHA's notices under paragraphs 20 and 22 of that Schedule; and
- (e) in any case a copy of the interim or final EDMO (as the case may be).

(3) The specified respondent is the LHA.

47.—(1) This paragraph applies to an application under paragraph 34(2) of Schedule 7 to the 2004 Act (appeal against LHA's decision under section 136(4) or 138(3) of the 2004 Act in respect of compensation payable to third parties for interference with rights in consequence of final EDMO).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the final EDMO (including the management scheme);
- (b) where the third party has requested compensation under section 138 of the 2004 Act, a copy of the LHA's notification of its decision to the third party in accordance with subsection (4) of that section; and
- (c) a statement giving full details of—
 - (i) the rights in respect of which it is claimed that there has been interference in consequence of the final EDMO; and
 - (ii) the amount of compensation claimed in respect of that interference.

(3) The specified respondent is the LHA.

Applications in relation to overcrowding notices

48.—(1) This paragraph applies to an application under section 143(1) of the 2004 Act (appeal by a person aggrieved by overcrowding notice).

(2) The specified document is a copy of the overcrowding notice, or a statement by the applicant explaining the circumstances by reason of which the applicant is not able to provide a copy of this notice.

(3) The specified respondent is the LHA.

49.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 144(2) o Ddeddf 2004 (apêl gan berson perthnasol yn erbyn gwrthodiad ATLL i ddirymu neu amrywio hysbysiad gorlenwi, neu yn erbyn methiant yr ATLL i ymateb mewn pryd i gais am ddirymu neu amrywio hysbysiad o'r fath).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hysbysiad gorlenwi; a
- (b) os gwrthododd yr ATLL amrywio hysbysiad gorlenwi, copi o benderfyniad yr ATLL.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLL.

Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2013

Ceisiadau sy'n ymwneud â methiant i roi datganiad ysgrifenedig

50.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 49(5) o Ddeddf 2013 (hawl i gael datganiad ysgrifenedig).

(2) Y dogfennau penodedig yw unrhyw ddogfennau a roddir gan berchennog y safle i'r meddiannydd, y mae'n ofynnol o dan adran 49(1) o Ddeddf 2013 bod perchennog y safle yn eu rhoi.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle.

Ceisiadau sy'n ymwneud â thelerau ymhlyg ychwanegol neu amrywio neu ddileu telerau ymhlyg neu delerau datganedig

